Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol
Estyn
Comisiwn Gofal Iechyd
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
Arolygiaeth Carchardai EM
Arolygiaeth Prawf EM
Swyddfa Safonau mewn Addysg
Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru



Arolygiad ar y Cyd o Dimau Troseddau Ieuenctid Cymru a Lloegr

Adroddiad ar: Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd

ISBN 1 84473 781 0

2006

Cyhoeddwyd gan COI ar ran Arolygiaeth Prawf EM.
Mai 2006. Cyf: 268543

Rhagair

Cynhaliwyd yr arolygiad o Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd yn ystod trydydd cam ein rhaglen. Yn ein barn ni, roedd gan y gwasanaeth nifer o gryfderau a atgyfnerthwyd gan strwythur rheoli a oedd yn datblygu a staff ymrwymedig a oedd gyda'i gilydd yn rhoi'r potensial ar gyfer datblygiad sylweddol pellach.

Cadeiriwyd y Grŵp Rheoli gan y Rheolwr Gyfarwyddwr a, thrwy ei bartneriaethau amlasiantaethol amrywiol a'i gysylltiadau o fewn yr awdurdod lleol, roedd mewn lle da i ddatblygu'r gwasanaeth. Roedd angen iddo fabwysiadu ymagwedd fwy strategol yn awr er mwyn sicrhau y gallai'r gwasanaeth fanteisio i'r eithaf ar ei adnoddau a'u targedu gan gyflawni ei gyfrifoldebau gweithredol yn fwy effeithiol.

Canfuom enghreifftiau o waith da iawn ond hefyd rhai bylchau mawr mewn perthynas â gwaith grŵp ac ymyriadau cyfiawnder gwneud iawn a chyfiawnder adferol. Ar y llaw arall, roedd rhai ymyriadau cynnar calonogol yn gysylltiedig â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phlant a Phobl Ifanc. Gwnaed gwaith da hefyd o fewn y llysoedd, gan gynnwys mechnïaeth, a hefyd gyda phlant a phobl ifanc unigol ar faterion a oedd yn effeithio arnynt yn bersonol. Mae angen rhoi sylw pellach i Asset a'r broses o gymhwyso safonau cenedlaethol mewn perthynas â goruchwylio ac adroddiadau cyn dedfrydu. Roedd y ffaith nad oedd gwaith rhybudd terfynol a gwaith gyda dioddefwyr yn cyrraedd y safonau cenedlaethol yn peri pryder hefyd.

Er ein bod yn cydnabod y gwaith y mae angen ei wneud, rydym yn ffyddiog bod gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yr ewyllys a'r penderfyniad i symud ymlaen. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion a fydd yn helpu'r tîm i symud yn ei flaen, yn ein barn ni.

Andrew Bridges
Prif Arolygydd Prawf EM

Ebrill 2006

Cyflawnwyd gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ym mis Hydref a mis Rhagfyr 2005.

Cynnwys

		Tudalen
	Cydnabyddiaethau	3
	Rhestr termau	4
	Cyflwyniad	5
	Trosolwg o'r ardal	6
	Crynodeb o'r sgorau	7
	Materion o ran amrywiaeth	8
	Ystadegau allweddol	9
	Canfyddiadau allweddol	10
1.	TREFNIADAU RHEOLI A PHARTNERIAETH	14
2.	GWAITH YN Y LLYSOEDD	22
3.	GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED	26
4.	GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N DESTUN GORCHMYNION CADW A HYFFORDDIANT	38
5.	DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL	42
	Arolygiad ar y cyd o Dimau Troseddau Ieuenctid	44
	Trefniadau arolygu	45
	Cod ymarfer	46
	Ymagwedd sgorio	47
	Camau nesaf	48
	Meini prawf arolygu ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid yn Lloegr	49

Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i holl staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, aelodau'r Bwrdd Rheoli a sefydliadau partner am eu cymorth wrth sicrhau bod yr arolygiad hwn wedi'i gynnal yn ddidrafferth.

Arolygydd Arweiniol	*John Llewellyn Thomas Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*
Arolygwyr	*Jane Attwood Arolygiaeth Prawf EM, Margaret Dexter Comisiwn Gofal Iechyd, Linda Howells Estyn, Mike Mullis Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, Vivienne O'Neale Arolygiaeth Prawf EM*
Aseswyr Arfer	*Penny Davies, Joe Bergdahl*
Staff Cefnogi	*Natalie Dewsnap, Grace Dickin, Deborah Hood*
Rheolwr y Rhaglen	*Liz Calderbank Arolygiaeth Prawf EM*
Asesydd Ardal	*Liz Banaszak*

Rhestr termau

AALl	Awdurdod Addysg Lleol
ACPC	Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant
AGCC	Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
APA	Asesiad Blynyddol o Berfformiad
ASBO	Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
Asset	Dull asesu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
BRhS	Bwrdd Rheoli Strategol
CAMHS	Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
CAMPUS	Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol
CLG	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
CPA	Asesiad Cynhwysfawr o Berfformiad
CPN	Nyrs seiciatrig gymunedol
CPS	Gwasanaeth Erlyn y Goron
CSCI	Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol
CSV	Gwirfoddolwr Gwasanaeth Cymunedol
DipSW	Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol
DPA	Dangosyddion Perfformiad Allweddol
DTO	Gorchymyn Cadw a Hyfforddiant
EPQA	Sicrhau Ansawdd Arfer Effeithiol
Estyn	Arolygiaeth EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
HMIC	Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
ISP	Cynllun Goruchwylio Cychwynnol
ISSP	Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys
JAR	Adolygiad Ardal ar y Cyd
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd
NCH	Cartref Cenedlaethol y Plant
NSPCC	Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
Ofsted	Swyddfa Safonau mewn Addysg
PO	Swyddog prawf
PPO	Troseddwyr Cyson a Throseddwyr eraill â Blaenoriaeth
RAP	Darpariaeth Adsefydlu ac Ôl-ofal
SIFA	Cyfweliad Sgrinio i'r Glasoed
Safonau Cenedlaethol	Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid
SQUIFA	Holiadur ar gyfer y Cyfweliad Sgrinio i'r Glasoed
UDRh	Uwch Dîm Rheoli
VLO	Swyddog cyswllt â dioddefwyr
YOIS	System Wybodaeth Troseddau Ieuenctid
YOS	Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
YOT	Tîm Troseddau Ieuenctid

Cyflwyniad

Dechreuodd y rhaglen o arolygiadau ar y cyd o Dimau Troseddau Ieuenctid ym mis Medi 2003 a dyma'r rhaglen arolygu lawn gyntaf i archwilio gwaith y Timau Troseddau Ieuenctid. Caiff y rhaglen ei gweithredu mewn tri cham ac mae'n cwmpasu pob un o'r 155 o Dimau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr dros gylch o bum mlynedd.

Dechreuodd y trydydd cam hwn o'r arolygiad ym mis Medi 2005 ac mae'n cynnwys pob Tîm Troseddau Ieuenctid nas arolygwyd o'r blaen yng nghamau un a dau. Datblygwyd ei fethodoleg i ategu methodoleg yr Adolygiadau Ardal ar y Cyd (JAR) o Wasanaethau Plant yn Lloegr, a'r arolygiadau a gynhaliwyd o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella, a'r arolygiadau o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid a gynhaliwyd o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yng Nghymru. Er bod rhaglen y Timau Troseddau Ieuenctid yn parhau i fod yn broses ar wahân yng Nghymru a Lloegr, cynhelir arolygiadau o fewn amserlen debyg i'r trefniadau arolygu eraill hyn lle bynnag y bo'n bosibl, er mwyn symleiddio a lleihau unrhyw feysydd o orgyffwrdd neu ddyblygu posibl.

Mae'r arolygiad o'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn cwmpasu pum maes gwaith craidd:

- trefniadau rheoli a phartneriaeth, gan gynnwys rôl a swyddogaethau'r Bwrdd lleol
- gwaith yn y llysoedd
- gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned
- gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant
- dioddefwyr a chyfiawnder adferol.

Mae canfyddiadau o'r arolygiad o'r Tîm Troseddau Ieuenctid nid yn unig yn llywio'r JAR ond hefyd yr Asesiad Corfforaethol, APA a CPA yn Lloegr, ac arolygiadau a gynhelir fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella ac o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru.

Ar ddiwedd yr arolygiad, gofynnir i'r Tîm Troseddau Ieuenctid baratoi cynllun gweithredu sy'n ymateb i'r argymhellion. Unwaith y cytunir arno, caiff y cynllun gweithredu ei anfon i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn iddo fonitro'r broses o'i roi ar waith.

Trosolwg o'r ardal

- Mae Awdurdod Unedol Casnewydd ar arfordir de-ddwyreiniol Cymru.
- Mae gan Gasnewydd gyfanswm poblogaeth o 137,011, fel y'i mesurwyd yng Nghyfrifiad 2001. O'r boblogaeth hon, roedd 25.2% rhwng 0-17 oed ar adeg y cyfrifiad. Roedd y ffigur hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 22.8%.
- Roedd gan Gasnewydd boblogaeth pobl wynion yn bennaf, sef 95.2%; roedd y ffigur hwn yn is na chyfartaledd Cymru o 97.9%. Roedd canran y preswylwyr Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, sef 2.61%, yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru, sef 0.9%, yn yr un modd â chanran y preswylwyr Du neu Ddu Prydeinig, sef 0.5% o'i chymharu â chyfartaledd Cymru o 0.2%.
- Roedd lefel cyflogaeth yng Nghasnewydd, 56.8%, yn uwch na chyfartaledd Cymru o 55.2%. Roedd lefel diweithdra, sef 3.9%, yn uwch na chyfartaledd Cymru o 3.5%. Roedd canran y preswylwyr sâl yn barhaol neu anabl, sef 7.9%, yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru o 5.5%, ond yn is na chyfartaledd Cymru o 9.2%. Roedd canran is o fyfyrwyr yn byw yng Nghasnewydd, a hynny'n rhai economaidd weithgar ac anweithgar, sef 6.5% o'i chymharu â chyfartaledd Cymru o 7.4%.
- Cofnododd Cyfrifiad 2001 y gallai 7.2% o boblogaeth Casnewydd tair blwydd oed a throsodd naill ai siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg. Roedd y ffigur hwn yn llawer is na'r cyfartaledd ledled Cymru o 16.3%.
- Dangosodd ffigurau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer troseddu ymhlith pobl ifanc ar gyfer y cyfnod mis Ebrill 2004 tan fis Mawrth 2005, i 67 o droseddau gael eu cyflawni fesul 1,000 o blant a phobl ifanc 0-17 oed yng Nghasnewydd.
- Yng nghrynodeb y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o berfformiad y Tîm Troseddau Ieuenctid yn erbyn y DPA ar gyfer Ebrill-Rhagfyr 2005, cafodd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid lefel berfformiad o 2.

Crynodeb o'r sgorau

4: Ardderchog; 3: Da; 2: Digonol; 1: Annigonol.

	Sgôr yr adran
Rheoli	**2**
Gwaith yn y llysoedd	**3**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned	**2**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant	**3**
Dioddefwyr a chyfiawnder adferol	**1**

Asesiad cyffredinol

Roedd gan Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd rai aelodau o staff ymrwymedig a, gyda strwythur rheoli sy'n datblygu, y potensial i gyflawni llawer mwy na'r hyn a ganfuom yn ystod yr arolygiad hwn. Roedd wedi cael anhawster mawr i gyflawni ei ymrwymiadau yn bennaf oherwydd newidiadau rheoli a arweiniodd at gymorth unigol annigonol a diffyg cydlynu rhwng timau a chymhwyso adnoddau yn aneffeithiol. Serch hynny, roeddem o'r farn bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid mewn lle da i ddatblygu ei reolaeth strategol a bod ganddo'r gallu i wella.

Canfuom rai enghreifftiau o waith da iawn ac unigolion â gallu a photensial. Fodd bynnag, roedd bylchau mawr yn y ddarpariaeth mewn perthynas â gwaith grŵp ac ymyriadau cyfiawnder gwneud iawn a chyfiawnder adferol. Gwelwyd rhai ymyriadau cynnar calonogol yn gysylltiedig â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phlant a Phobl Ifanc. Gwnaed gwaith da o fewn y llysoedd, gan gynnwys mechnïaeth, a chyda phlant a phobl ifanc unigol ar faterion a oedd yn effeithio arnynt yn bersonol. Mae angen rhoi sylw pellach i Asset a'r broses o gymhwyso safonau cenedlaethol mewn perthynas â goruchwylio ac adroddiadau cyn dedfrydu. Yn ogystal, nid oedd gwaith rhybudd terfynol a gwaith gyda dioddefwyr yn cyrraedd y safonau cenedlaethol.

Roedd y Bwrdd Rheoli, drwy ei bartneriaethau amlasiantaethol amrywiol a'i gysylltiadau o fewn yr awdurdod lleol, mewn lle da i ddatblygu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, roeddem o'r farn y byddai aelodaeth y Bwrdd yn cael budd o gael ei hadolygu er mwyn sicrhau cynrychiolaeth briodol. Yn ein barn ni, dylai hefyd fabwysiadu ymagwedd fwy strategol er mwyn sicrhau y gallai'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid reoli ei adnoddau yn fwy effeithiol a chyflawni ei gyfrifoldebau gweithredol.

Materion o ran amrywiaeth

Dangosodd y dadansoddiad o sampl o achosion fod cyfran fawr o'r plant a'r bobl ifanc yn y sampl o boblogaethau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Ni chafodd y cymunedau hyn eu cynrychioli ar y Bwrdd Rheoli. Ymddengys bod grŵp staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn amrywiol o ran rhyw ac ethnigrwydd, ond roedd angen denu mwy o staff a gwirfoddolwyr o leiafrifoedd ethnig.

Wrth adolygu hyfforddiant y staff yn ystod y 12 mis blaenorol, canfuom mai dim ond un person a oedd wedi dilyn cwrs ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Cydnabuwyd bod amrywiaeth yn fater i'w ystyried, ond credwn fod angen hyfforddiant penodol i ddatblygu arfer yn y maes hwn, am fod anghenion amrywiaeth plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu ond bod llawer o le i wella.

Nid oedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid unrhyw ganllawiau penodol ar gyfer merched a menywod ifanc, na phlant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, na'r rhai ag anableddau. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd o grwpiau a oedd wedi'u sefydlu i weithio gyda phobl ifanc, gan gynnwys menywod ifanc, o'r gymuned Dsieineaidd ac o waith arall a oedd yn canolbwyntio ar anghenion unigol.

Ystadegau allweddol

Asesiad o ffeiliau achos y Tîm Troseddau Ieuenctid	Sgôr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid	Cyfartaledd ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid cam dau	Ystod ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid cam dau	Targedau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid[1]
	(% o achosion)			
Cwblhawyd yr asesiad cychwynnol yn unol â gofynion y safonau cenedlaethol: – amseroldeb	78%	84%	70-97%	100%
– ansawdd digonol	71%	71%	29-93%	
Cwblhawyd risg lawn o niwed i eraill mewn achosion perthnasol	30%	54%	17-83%	
Tystiolaeth o oruchwyliaeth gan reolwyr mewn achosion risg o niwed	100%	41%	0-100%	
Mae'r ISP yn bodloni gofynion cynnwys y safonau cenedlaethol ac yn cynnwys amcanion CAMPUS	36%	52%	17-96%	100%[2]
Mae amlder y penodiadau a drefnir yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r safonau cenedlaethol, gofynion gorchymyn/trwydded, ac unrhyw ystyriaethau risg o niwed	59%	75%	52-100%	
Mae dyfarniadau ynghylch absenoldebau derbyniol/annerbyniol yn briodol	55%	71%	40-96%	
Cymerir camau torri/ail-alw, lle y bo angen, o fewn amserlen y safonau cenedlaethol	25%	49%	13-100%	
Tystiolaeth o unrhyw weithgarwch troseddol yn ystod y gorchymyn	19%	29%	15-48%	
Cymerwyd camau priodol os ystyriwyd bod plentyn neu berson ifanc yn agored i niwed ganddo'i hun ac eraill	75%	95%	67-100%	
Cymerir camau effeithiol lle y ceir tystiolaeth o anawsterau addysgol	73%	60%	33-81%	90%[3]
Gwneir atgyfeiriadau priodol mewn achosion o: – iechyd corfforol	43%	dd/g	dd/g	
– iechyd meddwl/emosiynol	75%	dd/g	dd/g	100%[4]
– camddefnyddio sylweddau	81%	dd/g	dd/g	100%[5]
Ymgynghorwyd â'r dioddefwr ynghylch gwaith cyfiawnder adferol/gwneud iawn gyda'r plentyn neu'r person ifanc	29%	45%	6-72%	

(1) Lle y bo'n briodol.
(2) Yn ymwneud â chynlluniau cadw a hyfforddiant.
(3) Mewn cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg lawn amser.
(4) Atgyfeiriadau CAMHS.
(5) Sgrinio ac atgyfeiriadau.

Canfyddiadau allweddol

- ***Rheoli*** – Canfuom Wasanaeth Troseddau Ieuenctid gyda staff ymrwymedig ac arloesol a strwythur rheoli a oedd yn datblygu ac a oedd â photensial da. Roedd gan y Bwrdd Rheoli gysylltiadau arbennig o dda â threfniadau partneriaeth amrywiol a hefyd yn fewnol o fewn Cyngor Dinas Casnewydd. Fodd bynnag, roedd materion o ran lefel y gynrychiolaeth a phresenoldeb yn y Bwrdd Rheoli. O ganlyniad, credwn fod angen rhoi sylw pellach i ymrwymiad partneriaid i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

  Yn ein barn ni, roedd gan y Bwrdd Rheoli, at ei gilydd, ffocws mwy gweithredol na strategol ac roedd angen rhoi'r sylw hwnnw yn awr i ddatblygu ffocws mwy strategol. Roedd angen i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ddatblygu fframwaith rheoli perfformiad ar lefelau strategol a gweithredol. Yn ogystal, roedd angen adolygu a diweddaru cysylltiadau â sefydliadau partner drwy brotocolau a CLG. Yn ein barn ni, roedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, gyda ffocws newydd, potensial sylweddol i ddatblygu drwy ei rwydweithiau sefydledig.

  Roedd rheolwyr gweithredol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi bod yn destun sawl newid heb ei gynllunio yn y misoedd cyn yr arolygiad ac roedd hyn yn ei dro wedi arwain at swyddi rheoli gwag neu drefniadau penodi dros dro. Roedd hyn wedi cael effaith ansefydlog iawn ar y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'i allu i ddarparu gwasanaethau yn effeithiol ar draws ystod o ddyletswyddau statudol.

- ***Gwaith yn y llysoedd*** – Roedd cydberthnasau rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a llysoedd Gwent yn dda ac roedd cynlluniau ar waith i adolygu trefniadau gwiath o leiaf yn flynyddol drwy'r CLG. Roedd gwasanaeth mechnïaeth a remand wedi'i sefydlu ac yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu am y ffaith, oherwydd diffyg llety a oedd ar gael, bod plant a phobl ifanc weithiau yn cael eu rhoi ar fechnïaeth mewn llety gwely a brecwast anaddas.

  Roedd ansawdd yr adroddiadau cyn dedfrydu a archwiliwyd yn dda ar y cyfan, er bod lle i wella o ran rhai agweddau megis dadansoddi troseddau a'r effaith ar y dioddefwr.

- ***Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned*** – Roedd ymagwedd yn cael ei mabwysiadu ar draws yr awdurdod cyfan i wyro plant a phobl ifanc oddi ar droseddu ac roedd nifer o weithgareddau ar gael at y diben hwn. Er i ni ganfod rhywfaint o waith o ansawdd da o ran asesu, cynllunio goruchwylio a gwaith unigol gyda phlant a phobl ifanc o ran ymddygiad troseddol, roedd angen rhoi sylw i'r broses o asesu a rheoli'r risg o niwed, yn ogystal â'r broses o reoli a goruchwylio achosion o'r fath. Yn ogystal, roedd angen i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ddatblygu ei ymagwedd tuag at

gyflwyno rhybuddion terfynol. Ni chafodd adborth gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr ei gasglu a'i ddefnyddio'n rheolaidd i lywio arfer. Roeddem o'r farn y byddai'r gwaith hwn yn fwy effeithiol pan oedd y trefniadau rheoli gweithredol wedi sefydlogi a phan oedd gwaith wedi'i wneud i ddatblygu mwy o gydweithio a gweithio mewn tîm yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Roedd gwaith gyda rhieni/gofalwyr yn rhan fawr o waith aelodau unigol o staff ond nid oedd yn rhan o ymagwedd fwy strategol ac felly nid oedd yn benodol nac yn eglur.

- ***Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant*** – Gweithiodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn effeithiol gyda phlant a phobl ifanc yn ystod eu dedfryd ac ar ôl hynny. Roedd trefniadau priodol ar waith i hysbysu'r sefydliad carcharol ar unwaith o'r cefndir a'r risgiau a berwyd gan y plentyn neu'r person ifanc. Roedd lefelau cyswllt gyda phlant a phobl ifanc yn ystod rhan garcharol eu dedfrydau yn dda ac roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cefnogi rhieni/gofalwyr yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal, parhaodd cyswllt â'r gwasanaethau iechyd ac addysg yn ystod y ddedfryd ond gellid ei wella, yn ein barn ni. Roedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid RAP a oedd yn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc yn y ddalfa a oedd yn defnyddio cyffuriau, gyda rhaglen ddwys wrth iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned. Cyflawnwyd gwaith a wnaed gan yr ISSP a'r rheolwr achos yn effeithiol ond ymddengys nad oedd yn gydamserol.
- ***Dioddefwyr a chyfiawnder adferol*** – Canfuom fod gwaith gyda dioddefwyr wedi'i ddatblygu'n wael o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac nad oedd yn cyrraedd y safon ofynnol. Roedd trefniadau cyfiawnder adferol ar waith drwy reolwyr achos a'r panel atgyfeirio a gyfarfu'n rheolaidd i feithrin ac adolygu cysylltiadau. Roedd y panel yn manteisio ar amrywiaeth o weithgareddau yn y gymuned gan gynnwys helpu'r henoed a phrosiectau cymunedol ac amgylcheddol.

  Ni wnaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid lawer o ddefnydd o gamau gwneud iawn uniongyrchol ond roedd yn llawer mwy llwyddiannus o ran camau gwneud iawn anuniongyrchol.

Argymhellion

Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli sicrhau:

- y caiff cynllun gweithredu ei lunio i ymdrin â'r argymhellion canlynol ac y caiff ei anfon at yr arolygydd arweiniol o fewn tri mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn
- y caiff y Bwrdd ei gyfansoddi'n gywir, ei gefnogi'n effeithiol gan asiantaethau partner ac y caiff aelodau newydd eu sefydlu a'u paratoi ar gyfer eu rôl yn briodol
- bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac asiantaethau partner yn hyrwyddo darpariaeth gwasanaethau effeithlon drwy adolygu a datblygu protocolau, polisïau a CLG mewn perthynas â staffio a darparu adnoddau i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
- y caiff trefniadau rheoli parhaol a chlir ar gyfer y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid eu sicrhau fel blaenoriaeth
- y caiff pob aelod unigol o staff, pob myfyriwr a phob gwirfoddolwr sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wiriad manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol pan fyddant yn dechrau swydd/lleoliad a phob tair blynedd ar ôl hynny
- bod y Bwrdd yn datblygu fframwaith rheoli perfformiad i fonitro ac adolygu'r broses o weithredu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid a llywio cyfeiriad strategol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Dylai Rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid sicrhau:

- y caiff pob aelod o staff ei oruchwylio a'i arfarnu'n rheolaidd o fewn fframwaith rheoli perfformiad
- y caiff polisi risg ei ddatblygu a'i weithredu, ac y cwblheir asesiadau risg o niwed ym mhob achos perthnasol, a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd a'u cymeradwyo gan reolwyr fel y bo'n briodol
- y caiff ansawdd Asset ei wella, drwy hyfforddiant a goruchwyliaeth gan reolwyr, er mwyn bodloni gofynion y safonau cenedlaethol a helpu rheolwyr achos yn eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc
- y caiff y gwaith o gadw cofnodion drwy system electronig YOIS a systemau ffeilio eraill ei gydlynu er mwyn rhoi darlun llawn o bob achos unigol gan gynnwys ISSP
- y caiff y lefelau cyswllt â phlant a phobl ifanc sy'n troseddu eu gwella er mwyn bodloni gofyniad y safon genedlaethol
- y caiff safonau cenedlaethol mewn perthynas â gorfodi eu cymhwyso'n gyson ar draws y gwasanaeth
- y caiff ansawdd y cynlluniau goruchwylio a hyfforddi ei wella
- y caiff strategaethau eu datblygu i hyrwyddo gwaith gyda rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n troseddu a dioddefwyr troseddau

- y caiff ymyriadau eu gwerthuso'n ffurfiol er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd a'u defnyddio i ddatblygu arfer a pholisi.

Dylai sefydliadau partner sicrhau:

- bod cynrychiolaeth ar y Bwrdd Rheoli yn ddigon uchel i allu gwneud penderfyniadau'n effeithiol
- bod eu cynlluniau strategol yn cysylltu â Chynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2005/2006 yn effeithiol, mewn termau gweithredol.

Dylai'r Adran Lles Cymdeithasol a Thai sicrhau:

- y caiff protocol arfer ei ddatblygu sy'n hyrwyddo cydberthnasau gwaith clir ac agos â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid er mwyn diogelu plant a phobl ifanc.

Dylai Heddlu Gwent sicrhau:

- y caiff rhybuddion terfynol eu datblygu yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref/Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2002), gyda chynadledda adferol a chyfleoedd i'r dioddefwr fod yn bresennol.

Dylai'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau:

- y caiff plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl y lefel briodol o sylw ac ymyrraeth a bod y ddarpariaeth honno yn seiliedig ar brotocolau ysgrifenedig y cytunwyd arnynt.

Dylai'r AALl sicrhau:

- bod amrywiaeth a niferoedd digonol o leoedd ar gael i ddiwallu anghenion unigol plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed fel eu bod yn cael eu hawl statudol i addysg
- y caiff ysgolion eu hannog i ailintegreiddio plant a phobl ifanc sy'n troseddu mewn addysg brif ffrwd ac y caiff arferion gwahardd eu hadolygu fel na wrthodir addysg iddynt yn sgîl oedi cyn cymryd camau.

Dylai'r Cwmni Gyrfaoedd ystyried:

- ehangu ei wasanaethau i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i gynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd cyn rhyddhau ar gyfer pobl ifanc dros 16 mlwydd oed a sicrhau bod hyfforddiant addas ar gael iddynt wrth iddynt gael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned
- olrhain pobl ifanc dros 16 mlwydd oed sy'n troseddu er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth.

Dylai Cyngor Dinas Casnewydd, mewn partneriaeth ag eraill, sicrhau:

- bod amrywiaeth ddigonol o lety addas ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc ar fechnïaeth neu sy'n ddigartref mewn gwirionedd a/neu sydd ag anghenion cymorth arbennig.

1. TREFNIADAU RHEOLI A PHARTNERIAETH

1.1 Arweinyddiaeth

Dyfarniad allweddol:

- *Mae'r Bwrdd Rheoli yn darparu goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol, ac yn cydlynu'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a ddarperir gan y Tîm Troseddau Ieuenctid a sefydliadau partner.*

Roedd y Tîm Troseddau Ieuenctid wedi newid ei enw i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ym mis Awst 2005 ac roedd wedi'i leoli o fewn Fframweithiau Cynllunio Diogelwch Cymunedol a Phlant a Phobl Ifanc Casnewydd. Roedd Rheolwr Gyfarwyddwr Cyngor Dinas Casnewydd a oedd yn cadeirio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cydlynu'r cyfan ac yn rhoi cyfeiriad iddo.

Dim ond ers mis Awst 2005 y bu Rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid mewn swydd, yn ystod secondiad deiliad parhaol y swydd i Wasanaethau Plant a Theuluoedd Cyngor Dinas Casnewydd. Roedd y swydd wedi'i llenwi i ddechrau gan reolwr profiadol o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, a oedd wedi gadael wedi hynny ar ôl cael ei ddyrchafu ym mis Awst 2005. Roedd y broses hon wedi amharu ar y gwasanaeth ac, fel yr oedd yn amlwg yn ystod yr arolygiad, parhaodd i hyrwyddo ansicrwydd ymhlith y staff o ran rheolaeth o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn y dyfodol.

Serch hynny, dylid nodi bod y strwythur rheoli wedi bod yn sefydlog am sawl blynedd cyn yr amhariad hwn. Yn ogystal, roedd y Bwrdd Rheoli wedi llwyddo i gynyddu gallu rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid drwy benodi dau reolwr gweithredol newydd yn 2005.

Cryfderau:

- Roedd cysylltiadau sefydliadol clir rhwng y Grŵp Rheoli a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phlant a Phobl Ifanc. Roedd yn amlwg o gyfweliadau, data i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac archwilio cofnodion bod y Bwrdd Rheoli mewn lle da i ddarparu goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol, a bod ganddo'r potensial i gydlynu'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a ddarparwyd yn yr ardal.
- Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn rhan o'r Tîm Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac yn gysylltiedig â threfniadau'r awdurdod ar gyfer datblygu ei allu fel rhiant corfforaethol.
- Cafodd pob partner statudol, ynghyd â chynrychiolwyr allweddol eraill, eu cynrychioli ar y Bwrdd Rheoli, a oedd hefyd yn cynnwys Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc a Rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Cafodd

Aelod y Cabinet effaith gadarnhaol ar y gwasanaethau a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid drwy ddarparu cyswllt uniongyrchol â strwythurau gwleidyddol yr awdurdod a chodi proffil gwaith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Fodd bynnag, cafodd statws ac awdurdod y cynrychiolwyr addysg ac iechyd i gymryd rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau eu cwestiynu ac roedd angen eu hadolygu.

- Roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid wedi'i adolygu a'i gymeradwyo gan Gyngor Dinas Casnewydd ar 26 Gorffennaf 2005 gyda chymorth pob asiantaeth partner. Roedd Aelodau'r Grŵp Rheoli yn fodlon ei fod yn cael ei weithredu o amgylch swyddogaethau allweddol y Tîm Troseddau Ieuenctid ar y cyfan. Roeddent yn ffyddiog bod y ffigurau a roddwyd i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn gywir ac yn cael eu cyflwyno'n brydlon ar ôl i'r Bwrdd graffu arnynt a nododd newidiadau ac a geisiodd helpu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i ddatrys unrhyw broblemau a gododd. Roedd aelodau'r Bwrdd a'r staff yn gwbl ymwybodol o le'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn nhablau perfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac roeddent yn falch o'u cynnydd yn y cyd-destun hwn.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Roedd y Bwrdd Rheoli wedi cyfarfod bedair gwaith ers mis Tachwedd 2004 ac, ar gyfartaledd, roedd traean o'r aelodaeth yn ymddiheuro am beidio â gallu mynychu ym mhob cyfarfod. Roedd yn tueddu i ganolbwyntio ar faterion rheoli a pherfformiad yn ei gyfarfodydd ac felly roedd yn canolbwyntio ar faterion gweithredol, er i ni ganfod tystiolaeth ei fod yn dechrau bod yn fwy strategol. Yn y cyfarfod ym mis Tachwedd 2005 cafodd cynllun gweithredu strategol a ddeilliodd o werthusiad annibynnol a gynhaliwyd yn gynharach yn 2005 ei drafod a'i gadarnhau. Yn sgîl gweithredu'r cynllun, cafodd grŵp gorchwyl a gorffen ei greu sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg, a chwaraeodd cynrychiolydd addysg y Bwrdd Rheoli ran ganolog.
- Er y dylai'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid weld manteision hirdymor sylweddol o ganlyniad i secondiad ei Reolwr i Wasanaethau Plant a Theuluoedd, roedd angen egluro'r sefyllfa a'i chyfleu'n glir i bob carfan â diddordeb fel blaenoriaeth.
- Er i'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid gynnwys dyddiadau ar gyfer ei adolygu gan y Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn, nid oedd yn glir, o'r dystiolaeth a oedd ar gael, sut y byddai'r broses hon yn cael ei chyflawni a'r canlyniadau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc a fyddai'n mynychu gwasanaethau'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a werthuswyd. Roedd angen i'r Bwrdd fod yn fwy rhagweithiol wrth weithredu meysydd allweddol, yn arbennig mewn perthynas ag atal, rhianta, hygyrchedd gwasanaethau iechyd meddwl, addysg, llety, cynnwys dioddefwyr a gwneud iawn. Dangosodd ein gwaith o ddarllen ffeiliau achos fod nifer anghymesur o blant a phobl ifanc yn cael anawsterau yn y meysydd hyn, ynghyd ag ystod gyfyngedig o brosiectau gwneud iawn ac ymwybyddiaeth a chyfranogiad isel ymhlith dioddefwyr.

- Nid oedd paragraff C3 o'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid, yn ymwneud â Ffactorau Sbarduno a Pherfformiad, wedi'i gwblhau oherwydd nad oedd y wybodaeth ariannol fanwl wedi'i chasglu. Yn ogystal, nid yw costau gweithredu'r Cynllun Cyflawni am y flwyddyn wedi'u cyfrifo. Roedd angen i'r Bwrdd Rheoli adolygu ei allu i gasglu gwybodaeth ariannol berthnasol am bob agwedd ar reoli cyllidebol, gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid blynyddol ar waith.

Arfer da

Yn sgîl ad-drefnu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac integreiddio'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid â'r trefniadau newydd mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ariannu gweithwyr ASBO'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, mae cynllun CSV wedi'i ddatblygu a chafwyd Prosiect Moduro llwyddiannus. Roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr, fel Cadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, wedi bod yn ganolog i'r datblygiadau hyn.

1.2 Partneriaeth ac adnoddau

Dyfarniad allweddol:

- *Mae sefydliadau partner a'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn gweithio gyda'i gilydd i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.*

Roedd Rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn aelod o'r Bartneriaeth Fframwaith Plant, y Bartneriaeth Pobl Ifanc, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a chafodd ei gynrychioli ar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Roedd yr holl bartneriaethau hyn yn bartneriaethau strategol allweddol a effeithiodd ar waith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gallu darparu amrywiaeth eang o ymyriadau ac roedd yn gallu cysylltu, drwy weithwyr arbenigol, ag asiantaethau partner gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth prawf, iechyd, addysg ac asiantaethau gwirfoddol megis Gwasanaeth yr NSPCC i'r Glasoed sy'n Cam-drin yn Rhywiol. Rhoddodd y Gwasanaeth olaf hwn enghraifft dda o gydweithredu rhwng y tri Thîm Troseddau Ieuenctid yn ardal Gwent Fwyaf, a gydweithiodd yn agos i ddatblygu a rhannu arbenigedd a, lle y bo'n bosibl, adnoddau.

Roedd tri Thîm Troseddau Ieuenctid Gwent yn atebol i Grŵp Prif Swyddogion Gwent ar faterion strategol o ran cyfiawnder ieuenctid. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r pum awdurdod lleol: y Prif Gwnstabl, y Prif Swyddog Prawf, pum Prif Weithredwr y Byrddau Iechyd Lleol, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Chadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Er bod ganddo gylch gwaith ehangach na chyfiawnder ieuenctid, roedd materion o ran troseddau ieuenctid yn eitem sefydlog ar ei agenda. Roedd y grŵp yn ceisio sicrhau cytundebau anffurfiol ynghylch materion allweddol ac felly nid oedd Byrddau Rheoli'r Tîm Troseddau

Ieuenctid/Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid lleol yn rhwym wrth ei benderfyniadau.

Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi ceisio adolygu ei drefniadau ariannu bob blwyddyn ond roedd hyn yn faes anodd. Cawsom ein hysbysu bod Timau Troseddau Ieuenctid eraill ledled ardal De Cymru yn wynebu problemau ariannu, a bod y broblem wedi'i chyfeirio at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ond nad oedd wedi'i datrys erbyn adeg yr arolygiad.

Cryfderau:

- Rhoddodd pob partner statudol adnoddau staffio neu ariannol i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Ariannodd yr heddlu y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn unol â'i gytundeb, gan gynnwys codiadau ar gyfer chwyddiant. Roedd yr awdurdod lleol wedi parhau â'i ymrwymiad ac nid oedd wedi gofyn i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wneud arbediad effeithlonrwydd o 1% yr oedd yn ofynnol i wasanaethau eraill o dan ei reolaeth ei wneud.
- Er nad oedd y partneriaid statudol wedi cynyddu lefel eu hadnoddau, roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi llwyddo i sicrhau arian byrdymor o'r Gronfa Cymunedau Mwy Diogel er mwyn datblygu'r prosiect CSV, y Prosiect Moduro a'r prosiect ASBO. Cyflogodd y prosiect ASBO ddau weithiwr cymdeithasol. Eu prif swyddogaeth oedd gweithio gyda phlant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu a oedd yn destun ASBO eisoes. Roedd wedi gweithio gyda 38 o blant a phobl ifanc, a dim ond tri o'r rhain a oedd wedi cael ASBO ar ôl hynny. Bu'n llwyddiannus hefyd wrth wyro nifer sylweddol o blant a phobl ifanc eraill i amrywiaeth o raglenni adeiladol amgen nad oeddynt yn golygu rhoi gorchymyn llys. Roedd hefyd yn cysylltu'n effeithiol â'r Gwasanaethau Ieuenctid i ddatblygu diddordebau a chymorth hirdymor a nodi meysydd lle y gallai'r Gwasanaeth Ieuenctid ymyrryd yn uniongyrchol.
- Roedd yr awdurdod wedi sefydlu UDRh Estynedig Dysgu a Diwylliant Plant, a oedd yn gysylltiedig â strwythur y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc er mwyn mynd i'r afael â materion o ran partneriaeth ac adnoddau. Roedd gan yr UDRh Estynedig rôl allweddol o ran rhianta corfforaethol ac roedd yn gysylltiedig â strwythur Cabinet yr awdurdod o dan arweiniad Cyfarwyddwr Corfforaethol. Roedd ganddo gylch gwaith clir i ddiogelu a gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc drwy waith partneriaeth gwell a mwy effeithiol. Fe'n hysbyswyd o ddau weithdy effeithiol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2005, ac o'r trefniadau ar gyfer lledaenu gwybodaeth rhwng timau yn y strwythur.
- Cafodd plant a phobl ifanc a gafodd ddarpariaeth cwricwlwm amgen eu cefnogi'n dda a chynigiwyd cyfleoedd da iddynt ddatblygu, llwyddo ac ennill cymwysterau cydnabyddedig am eu cyflawniadau. Roedd Gwasanaeth Dysgu yn y Cartref yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, wedi'i anelu at y rhai yr ystyrid eu bod yn peri gormod o risg i gael eu haddysgu yn eu cartrefi eu hunain. Cafodd atgyfeiriadau o'r 'Gwasanaeth Lleol Addysg ac Eithrio yn yr Ysgol'.

- Roedd Rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn aelod o'r ACPC ac yn bartner gweithredol MAPPA ar gyfer rheoli troseddwyr peryglus a threisgar. Fel rhan o Grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Gwent, cafodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ei gynrychioli ar BRhS MAPPA ac roedd wedi cytuno ar CLG gyda'r NSPCC i hwyluso gwaith gyda throseddwyr rhyw.
- Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid hefyd yn rhan o Gynllun Gwobr Dug Caeredin a weithredodd drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid. Trefnodd y Gwasanaeth Ieuenctid gynlluniau eraill hefyd megis *Impact* a'r *Ddraig Ffynci* a chafodd plant a phobl ifanc eu cynnwys ar y Cyngor Ieuenctid. Yn ogystal, defnyddiodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid *SPLASH*, sef rhaglen o weithgareddau difyrru a gynhelir yn ystod gwyliau'r ysgol ar gyfer pobl ifanc 13-17 mlwydd oed mewn ardaloedd lle y ceir llawer o droseddau.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Roedd y trefniadau ariannu ar gyfer y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cyfyngu ar ei ddatblygiad. Roedd y Bwrdd Rheoli wedi derbyn yr achos busnes dros fwy o adnoddau am y ddwy flynedd diwethaf ond nid oedd wedi llwyddo i gyflawni ei nodau drwy ddarparu arian ychwanegol gan asiantaethau partner neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Nid oedd y gwasanaethau iechyd a phrawf wedi llwyddo i dalu'r costau chwyddiant.
- Roeddem yn pryderu ynghylch y ffaith nad oedd protocolau diweddar yn cwmpasu'r sefydliadau a oedd yn darparu adnoddau, ac nad oedd eglurder o ran trefniadau cyfathrebu rhwng y Bwrdd Rheoli a'i bartneriaid. Nid oedd cofnodion y cyfarfodydd yn rhoi unrhyw dystiolaeth o adroddiadau i'r sefydliadau hyn nac adroddiadau ganddynt. Ac eithrio'r CLG â Gwasanaeth yr NSPCC i'r Rhai sy'n Cam-drin yn Rhywiol, nid oedd unrhyw un o'r protocolau â'r gwasanaethau iechyd ac addysg a'r heddlu wedi'u diweddaru ac roedd angen eu hadolygu ar frys. Roedd y mater hwn wedi'i nodi'n flaenoriaeth gan Reolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo yn y lle cyntaf i adolygu a diweddaru'r protocol gyda'r gwasanaeth prawf.
- Roedd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi sefydlu swyddi gweithwyr cymdeithasol parhaol yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Fodd bynnag, nid ymddengys fod unrhyw CLG a oedd yn amlinellu ei gyfraniad cyffredinol i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cwmpasu'r trefniant hwn.
- Nid oedd unrhyw un o'r protocolau yn ymdrin â'r broses o gofnodi a rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau partner yng Nghasnewydd. Fodd bynnag, roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi ymrwymo i Brotocol Rhannu Gwybodaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent gyfan a ddatblygwyd gan yr heddlu a'r Adran Diogelwch Cymunedol. Roedd y protocol hwn yn cwmpasu rhannu gwybodaeth ar draws y pum awdurdod lleol ac roedd yn cynnwys iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

- Nid oedd protocolau ar waith gyda Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yr Awdurdod, y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer y gweithwyr iechyd o fewn y tîm, na chyda *Fusion* a secondiodd y gweithwyr camddefnyddio sylweddau a RAP. O ganlyniad nid oedd digon o systemau a phrosesau ar waith yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i sicrhau bod gwaith y sefydliadau partner hyn yn cael ei gydlynu a bod eu hadnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol er budd plant a phobl ifanc.
- Er gwaethaf amrywiaeth dda o ddarpariaeth cwricwlwm amgen a gwasanaethau cymorth a gynigiwyd gan yr awdurdod lleol, nid oedd digon o leoedd i ddiwallu anghenion unigol plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr addysg a'r hyfforddiant yr oedd ganddynt yr hawl i'w cael. Roedd canran y rhai a gafodd eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a oedd yn cael addysg a hyfforddiant wedi cynyddu o 40% i 70% yn ddiweddar o'i chymharu â tharged y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o 90%.
- Er bod enghreifftiau unigol o arfer da, roedd yr hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed a atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn annigonol. Ni roddodd y Cwmni Gyrfaoedd wasanaeth digonol i'r plant a'r bobl ifanc a atgyfeiriwyd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Yn benodol, ni fynychodd gyfarfodydd cyn rhyddhau ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed yn y ddalfa, na chanfod pa un a oedd addysg neu hyfforddiant addas ar gael cyn eu rhyddhau.
- Er gwaethaf nifer o gamau a gymerwyd gan yr Adran Addysg a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd ar gael i blant a phobl ifanc yn yr ardal, ymddengys nad oedd digon o leoedd i sicrhau eu bod yn cael yr addysg a'r hyfforddiant yr oedd ganddynt yr hawl i'w cael.

1.3 Goruchwylio, datblygu a hyfforddi staff

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff canlyniadau effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc eu gwella gan staff effeithiol.*

Ar adeg yr arolygiad, roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi wynebu nifer o newidiadau mawr a effeithiodd ar Reolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a rheolwyr gweithredol. O'r tair swydd rheolwr gweithredol, roedd un wedi bod yn wag am sawl mis a dim ond yn ystod ail wythnos yr arolygiad ym mis Rhagfyr 2005 y cafodd ei llenwi. Roedd deiliad swydd arall wedi bod yn gweithio yn lle rhywun ar secondiad dros dro o fis Mai 2005 ac roedd materion i'w hystyried o ran ariannu'r drydedd swydd. Roedd y newidiadau hyn wedi cael effaith ar allu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i ddarparu goruchwyliaeth gyson a rheolaidd.

Cryfderau:

- Roedd trefniadau ar waith i bob aelod o staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gael sesiwn oruchwylio fisol ffurfiol gyda'i reolwr llinell yn unol â pholisïau a gweithdrefnau goruchwylio staff yr Adran Lles Cymdeithasol a Thai a chynllun cynlluniau datblygu personol adnoddau dynol yr awdurdod. Er bod y lefel yn amrywio'n sylweddol, cafodd pob aelod o staff sesiynau goruchwylio, ac roedd tystiolaeth glir y cynhelid y rhain yn amlach ers mis Medi 2005 pan oedd llawer o gynnydd wedi'i wneud i gyrraedd y targed misol. Dangosodd archwiliad o gofnodion fod sesiynau goruchwylio yn cael eu dogfennu'n briodol, eu dyddio a'u llofnodi gan y ddau barti a'u bod yn dilyn fformiwla y cytunwyd arni yn cwmpasu dysgu a datblygu, rhestr y cytunwyd arni o eitemau agenda, yn ogystal â thrafodaeth o achosion a rhestr wirio ar gyfer ffeiliau achos ac adroddiadau cyn dedfrydu.
- Roedd trefniadau goruchwylio ychwanegol ar waith gyda rhai asiantaethau partner. Cafodd y CPN oruchwyliaeth a chymorth rheolaidd gan nyrs hŷn yn CAMHS yn ogystal â Rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Cafodd gweithwyr camddefnyddio sylweddau a RAP oruchwyliaeth broffesiynol gan eu cyflogwr *Fusion.* Roedd gweithwyr RAP hefyd yn gallu cael cymorth personol gan gynghorwyr ac roedd hyn yn enghraifft o arfer da yn ein barn ni.
- Roedd yr heddlu wrthi'n adolygu ei bolisïau er mwyn sicrhau bod ei swyddogion yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n briodol yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Roedd y methiant i arfarnu swyddogion heddlu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi eu rhoi o dan anfantais fawr o ran dilyniant gyrfa. Fodd bynnag, ymddengys eu bod bellach yn cael goruchwyliaeth dda gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
- Cafwyd ymagwedd gadarnhaol tuag at hyfforddiant staff yn gyffredinol a chafodd aelodau o staff eu secondio ar gyrsiau DIPSW a chyrsiau Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol gan arwain at gymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol. Roedd dau aelod o staff wedi cwblhau'r Dystysgrif Arfer Effeithiol yn llwyddiannus ac roedd pedwar aelod o staff arall wedi dechrau neu ar fin dechrau. Roedd staff yn gallu manteisio ar hyfforddiant craidd ac arbenigol hefyd. Trafodwyd anghenion hyfforddi a chytunwyd arnynt yn y sesiynau goruchwylio, a bwriedid iddynt lywio'r cynlluniau datblygu personol newydd a nododd dargedau blynyddol ar gyfer datblygu proffesiynol, er iddynt gael eu gweithredu o hyd.
- Cafodd gwirfoddolwyr Atgyfeirio ac Oedolion wedi'u Neilltuo eu hyfforddi'n briodol i gyflawni eu rolau. Gwnaethant raglen hyfforddi saith wythnos a ddarparwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac a gyflwynwyd gan ymarferwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cwmpasu themâu allweddol. Ni chafodd gwirfoddolwyr sesiynau goruchwylio ffurfiol ond cawsant gymorth anffurfiol dros y ffôn ac wyneb yn wyneb o bryd i'w gilydd. Roedd y rhai a welwyd yn hyderus eu bod wedi'u paratoi'n dda i gyflawni eu rolau.

- Roedd gan bob aelod o staff a gyflogwyd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wiriad cyfredol y Swyddfa Cofnodion Troseddol neu roeddent wrthi'n eu diweddaru. Roedd trefniadau ar waith i wiriadau gael eu hadolygu o fewn tair blynedd. Cyflawnwyd gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol o staff a gafodd eu secondio o sefydliadau eraill gan eu rhiant-sefydliad asiantaeth.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Roeddem yn pryderu bod cyfradd trosiant uchel staff rheoli yn ystod y cyfnod cyn yr arolygiad wedi cael effaith negyddol ar y staff a gyflogwyd yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Cydnabuom na ellid bod wedi rhagweld y newidiadau hyn, ond gellid bod wedi lleihau eu heffaith drwy gyfathrebu'n gliriach â'r staff. Roedd yr amhariad a ddeilliodd o hynny wedi effeithio ar hyder a gallu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i baratoi ar gyfer yr arolygiad, darparu sesiynau goruchwylio unigol a chymorth i staff a hefyd datblygu gwaith tîm.
- Nid oedd y system arfarnu a'r cynllun datblygu personol wedi'u gweithredu'n llawn eto.
- Er bod y staff y cyfwelwyd â hwy yn weddol fodlon ar yr hyfforddiant a gynigiwyd, canfuom ei fod braidd yn ad hoc ac wedi'i gydlynu'n wael. O ganlyniad, nid ymdriniwyd bob amser â threfniadau i staff gymryd lle aelodau eraill o staff fel rhan o benderfyniad i secondio, neu wrth gytuno i rywun fynychu cwrs, ac nid oedd pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant craidd priodol, er enghraifft mewn Asset. Codwyd materion hefyd o ran ariannu hyfforddiant arbenigol, oherwydd y ffaith nad oedd digon o adnoddau ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.
- Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi nodi pryder yn ei Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid nad oedd cymhwyster y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, *Tystysgrif Arfer Effeithiol*, wedi'i achredu gan Gyngor Gofal Cymru fel dyfarniad cymhwyso neu ôl-gymhwyso wedi'i achredu. Roedd hyn wedi arwain at staff gwaith cymdeithasol yn dewis cyrsiau a achredwyd gan Gyngor Gofal Cymru na fyddent yn bodloni gofynion gwaith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn llawn o bosibl. Nodwyd bod y sefyllfa ar gyfer staff a gafodd eu secondio gan y sefydliadau partner hyd yn oed yn fwy ansicr. O ganlyniad, ni fyddai staff Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd mewn sefyllfa i gyrraedd targed y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol o 80% o staff yn cwblhau'r Dystysgrif Arfer Effeithiol erbyn mis Mawrth 2006.
- Ni chafodd y tîm gweinyddol ei oruchwylio'n ffurfiol o gwbl.
- Er bod gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cael eu cynnal gyda staff o asiantaethau partner a myfyrwyr, fe'n hysbyswyd mai dim ond cadarnhad ar lafar a gafodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid oherwydd materion o ran diogelu data. Roedd hyn yn amlwg yn arfer annerbyniol, yn ein barn ni, ac roedd angen ymdrin ag ef ar frys.

ASESIAD CYFFREDINOL O REOLI

Dyfernir bod yr adran hon wedi'i chyflawni'n ddigonol.

2. GWAITH YN Y LLYSOEDD

Dyfarniad allweddol:

- *Ceir cydberthnasau gwaith da rhwng y Tîm Troseddau Ieuenctid a'r llys lleol.*

Roedd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd yn un o dri Thîm Troseddau Ieuenctid yn Ardal Llysoedd Ieuenctid Gwent a rannodd gyfrifoldeb am wasanaethu'r llysoedd.

Cryfderau:

- Roedd CLG ar waith rhwng y tri Thîm Troseddau Ieuenctid a Llysoedd Ieuenctid Gwent. Roedd yn cwmpasu pob agwedd ar waith ac roedd wedi'i ddiweddaru gydag asiantaethau partner ym mis Gorffennaf 2004. Roedd hefyd yn cynnwys trefniadau i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid roi adroddiadau i glerc yr ustusiaid a Chadeirydd y Panel Ieuenctid yn chwarterol gyda gwybodaeth am y galw am adroddiadau cyn dedfrydu a newidiadau o ran llwyth achosion gwasanaethau.
- Cafodd y cytundeb ei adolygu'n flynyddol, a chodwyd unrhyw anawsterau interim o ran ei weithredu rhwng rheolwyr y Timau Troseddau Ieuenctid a chlerc yr ustusiaid yn anffurfiol.
- Nid oedd gan Went Grŵp Defnyddwyr Llysoedd ar gyfer y Llys Ieuenctid yn benodol ond cynrychiolwyd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar y Grŵp Gweithredol Cyffredinol a ymdriniodd â phob mater o ran y llysoedd. Roedd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd hefyd yn rhan o'r Grŵp Dilyniant Cynnydd Achosion a oedd â'r nod o gyflymu'r broses yn y llysoedd.
- Cafwyd cydberthynas dda rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a chlercod yr ustusiaid. Hysbysodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid y llys am ei arfer drwy gyflwyniadau rheolaidd a thrwy i'r Rheolwr fynychu digwyddiadau hyfforddi ynadon.
- Cyflawnodd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd ddyletswydd llys mewn trefniant cyfatebol â Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy/Tor-faen ac roedd swyddog gwyro yn y llys fel arfer hefyd. Cwblhawyd ffurflenni monitro gan y swyddog ar ddyletswydd ac fe'u dosbarthwyd i aelodau perthnasol o staff drwy gyfarfodydd dyrannu wythnosol y timau.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Roedd problem wedi codi o ran cwblhau adroddiadau dedfryd benodol yn nhri Thîm Troseddau Ieuenctid Gwent. Roedd cyfarfod wrthi'n cael ei drefnu gyda chlerc yr ustusiaid yn unol â'r weithdrefn ar gyfer datrys anawsterau a allai arwain at adolygu'r CLG o bosibl.

- Ymddengys, ar adegau, fod sawl aelod o staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn y llys ar yr un pryd, gan olygu y caiff adnoddau eu defnyddio'n aneffeithlon.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff arfer effeithiol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y Tîm Troseddau Ieuenctid yn y llysoedd.*

Cryfderau:

- Cyfwelwyd â phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr gan swyddogion dyletswydd llys ar unwaith ar ôl eu dedfrydu gan roi gwybodaeth iddynt am y ddedfryd a osodwyd gan y llys. Rhoddwyd dyddiad eu hapwyntiad cyntaf iddynt hefyd ac, yn dilyn esboniad llawn, gofynnwyd iddynt lofnodi ffurflen ymddygiad safonol.
- Roedd swyddogion dyletswydd llys yn brofiadol ac yn gwbl gyfarwydd â'r rôl y disgwylid iddynt ei chwarae.
- Roedd swyddogion gwyro hefyd yn mynychu'r llys ac roedd ganddynt rôl benodol mewn pecynnau mechnïaeth amgen ac wrth ddarparu cymorth mechnïaeth. Roeddent hefyd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a oedd yn destun mechnïaeth amodol ac roeddent yn cefnogi'r rhai a gafodd eu remandio i lety diogel.

Arfer da

Anfonwyd pecyn gwybodaeth i'r sefydliad diogel dan sylw ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc a ddedfrydwyd i DTO neu unrhyw ddedfryd garcharol arall. Roedd y pecyn hwn yn cynnwys Asset, adroddiad ôl-llys, hanes dedfrydu, adroddiad cyn dedfrydu ac asesiad agored i niwed o fewn amserlen y safon genedlaethol. Os aseswyd bod y risgiau yn uchel, gwnaed galwad ffôn ar unwaith hefyd i rybuddio'r sefydliad.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Ni chafodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid restr o achosion i'w clywed ym mhob llys cyn dyddiad y gwrandawiad fel mater o drefn. Byddai'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol iawn wrth helpu rheolwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i nodi gofynion o ran staff ar gyfer y llys ar unrhyw ddiwrnod penodol.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc eu diogelu a chaiff y tebygolrwydd y byddant yn troseddu eto ei leihau drwy ddarparu gwasanaethau priodol, gan gynnwys rhaglenni goruchwylio a chymorth mechnïaeth.*

Cryfderau:

- Roedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid rota o staff ar ddyletswydd a oedd ar gael pum niwrnod yr wythnos er mwyn sicrhau y gellid asesu plant a phobl ifanc ar gyfer mechnïaeth yn briodol. Cyflawnwyd asesiadau yn y llys a gwnaed penderfyniad o ran pa un a ellid cynnig cymorth mechnïaeth. Cafodd plant a phobl ifanc

wybodaeth ar lafar ac ysgrifenedig ac roedd yn ofynnol iddynt lofnodi amodau eu mechnïaeth cyn cael apwyntiad gyda swyddog gwyro'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Roedd ISSP mechnïaeth hefyd ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc a gyflawnodd droseddau difrifol.

- Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi recriwtio a hyfforddi gweithwyr sesiynol fel Oedolion Priodol a weithiodd yn agos â'r Tîm Dyletswydd Brys a'r heddlu i sicrhau y cafodd plant eu cefnogi wrth gael eu cadw yn nalfa'r heddlu a'u dychwelyd yn ddiogel i'w cartrefi.
- Roedd yr amrywiaeth o wasanaethau a oedd ar gael i blant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o gael ei roi ar remand yn y ddalfa yn cynnwys y prosiect ISSP, cymorth mewn perthynas â materion o ran cyffuriau neu iechyd meddwl gan staff arbenigol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a gwely remand penodedig yr awdurdod lleol.
- Canfuom, pan oedd cymorth mechnïaeth yn llwyddiannus, fod cymorth a darpariaeth amgen i'r plentyn neu'r person ifanc yn ei atal rhag aildroseddu ac yn ei ddiogelu rhag y risg o niwed i'w hunan ac i eraill. Yn ogystal, gwnaed cyswllt cymorth mechnïaeth â'r plentyn neu'r person ifanc yn unol â'r safon genedlaethol.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Canfuom nad oedd digon o lety ar gael i blant a phobl ifanc a gafodd eu rhoi ar remand gan y llys. O ganlyniad, cafodd nifer fach ohonynt eu rhoi mewn llety gwely a brecwast amhriodol lle nad oedd yn bosibl asesu'r risgiau a berwyd gan breswylwyr eraill yn ddigonol.
- Tîm Dyletswydd Brys Gwent, yn hytrach na Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd, a oedd yn gwasanaethu llysoedd ar ddydd Sadwrn a gwyliau banc. Dim ond gwybodaeth gyffredinol o becynnau cymorth mechnïaeth oedd gan y gweithwyr hyn ac nid oeddent yn gallu defnyddio YOIS, ac felly roedd y gwasanaeth ar ei wannaf ar yr adegau hyn.
- Ymddengys nad oedd gwasanaeth maethu remand sylweddol yn yr ardal, er bod galw am ddarpariaeth o'r fath. Roedd yr unig wely a oedd ar gael yn cael ei ddefnyddio y rhan fwyaf o'r amser pan oedd ei angen. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, cafodd yr awdurdod afael ar leoliadau yn y sector maethu preifat. Yn y cyd-destun hwn, roedd faint o lety a oedd ar gael a'i amrywiaeth y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Serch hynny, cynrychiolwyd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar nifer o fforymau tai/llety a gallai sicrhau bod materion o ran llety i blant a phobl ifanc yn cael eu hamlygu o dan adain y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Arfer da

Darparodd tîm o bedwar swyddog gwyro gwasanaeth cymorth a goruchwylio mechnïaeth i blant a phobl ifanc a gafodd ei roi ar remand yn y ddalfa, o fewn eu cylch gwaith. Roedd eu rôl yn cynnwys cymorth, mynychu pob cyfarfod cynllunio ac adolygu a pharatoi adroddiadau cychwynnol ac adolygu i baneli troseddau ieuenctid. Gweithiodd y tîm hwn yn rhagweithiol i wyro plant a phobl ifanc oddi wrth y ddalfa.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff y llysoedd eu helpu i wneud penderfyniadau hyddysg am fod y Tîm Troseddau Ieuenctid yn darparu adroddiadau o safon.*

Cryfderau:

- Roedd taflenni ar gael i roi gwybodaeth i blant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr am broses yr adroddiad cyn dedfrydu ac fe'u dosbarthwyd yn gyffredinol gan y swyddog dyletswydd llys yn y gwrandawiad cyntaf.
- Roedd proses borthgadw wedi bod ar waith ers peth amser, ond nid oedd yn gweithio'n effeithiol yn ystod wythnos gyntaf yr arolygiad.
- Defnyddiwyd yr archwiliadau o adroddiadau cyn dedfrydu hefyd fel dull o hyfforddi'r staff. Cafodd hen adroddiadau cyn dedfrydu eu newid i sicrhau cyfrinachedd a chawsant eu defnyddio i drafod safonau.
- Canfuom fod pob adroddiad cyn dedfrydu yn seiliedig ar Asset fel arfer a hefyd bod o leiaf un cyfweliad wedi'i gynnal â'r plentyn neu'r person ifanc a'i riant/gofalwr at ddibenion penodol yr adroddiad.
- Cafwyd gwybodaeth o bob ffynhonnell berthnasol ac roedd casgliadau yn cynnwys cynigion clir ar gyfer dedfrydu, roeddent yn gymesur â difrifoldeb y trosedd ac roedd y plentyn neu'r person ifanc yn eu deall yn hawdd.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Ni roddwyd taflenni gwybodaeth i blant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr fel mater o drefn er eu bod ar gael.
- Nid oedd fformat yr adroddiad cyn dedfrydu bob amser yn cydymffurfio â'r safon genedlaethol ac roedd yn cynnwys disgrifiad o'r trosedd yn hytrach na dadansoddiad ohono.
- Nid ymdriniwyd â'r effaith ar y dioddefwr yn ddigonol ac nid aseswyd y risg o niwed i'r person ei hun ac i eraill yn llawn.

Arfer da

Roeddem yn falch o nodi, ers wythnos gyntaf yr arolygiad, bod ffurflen borthgadw wedi'i chyflwyno ac yn cael ei defnyddio i wirio ansawdd pob adroddiad yn unol â'r safonau cenedlaethol fel mater o drefn. Atgyfnerthwyd yr ymagwedd hon hefyd drwy ailgyflwyno archwiliadau o adroddiadau cyn dedfrydu.

ASESIAD CYFFREDINOL AR GYFER GWAITH YN Y LLYSOEDD

Dyfernir bod yr adran hon yn dda.

3. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED

3.1 Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc eu hatal rhag troseddu.*

Roedd Cyngor Dinas Casnewydd wedi cymryd camau i sicrhau bod atal ymddygiad troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyfrifoldeb amlasiantaethol, ac yr aed i'r afael â hyn drwy'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phlant a Phobl Ifanc yn ogystal â chan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Cynlluniwyd partneriaethau yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, asiantaethau statudol, asiantaethau gwirfoddol ac asiantaethau preifat, er mwyn mynd i'r afael â'r gwaith o atal troseddau yn ogystal â datblygu gwasanaethau plant a phobl ifanc. Chwaraeodd Rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ran weithredol yng ngwaith y Partneriaethau, a chafodd y cyfan ei gydlynu gan Reolwr Gyfarwyddwr yr awdurdod.

Roedd Grŵp Dinasyddiaeth Gadarnhaol wedi'i sefydlu fel is-grŵp y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i gydlynu'r agenda cynllunio ac atal yng Nghasnewydd. Roedd y grŵp hwn hefyd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am faes atal a rhwystro'r strategaeth troseddwyr cyson a throseddwyr eraill â blaenoriaeth. Rhagwelwyd, drwy'r gwaith hwn, y byddai asiantaethau yn gallu nodi'r rhai mewn perygl ac atgyfeirio plant a phobl ifanc at yr asiantaeth briodol, gan gynnwys y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar gyfer gwaith ataliol lle y bo'n briodol.

Roedd maes strategaeth atal a rhwystro strategaeth troseddwyr cyson a throseddwyr eraill â blaenoriaeth y Swyddfa Gartref wedi'i weithredu gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gan ddefnyddio ei adnoddau ei hun a heb unrhyw gynnydd ychwanegol mewn adnoddau. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod adnoddau ychwanegol yn debygol o gael eu neilltuo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn ehangu'r gwaith atal a wnaed gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Cryfderau:

- Roedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ei strategaeth atal troseddau ei hun, ond gweithiodd mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill er mwyn cyflawni ei nodau. Nododd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer 2005/2006 fod yr ymagwedd hon wedi arwain at yr adolygiad o'r strategaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol gan olygu bod arian wedi'i sicrhau gan y Gronfa Cymunedau Mwy Diogel ar gyfer dau weithiwr ASBO i weithio yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

- Yn ogystal â gweithio'n agos ag Uned Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yr awdurdod, roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid hefyd wedi llwyddo i ddatblygu gwasanaethau atal eraill megis y Prosiect Moduro, a chynllun CSV. Roedd y Prosiect Moduro yn seiliedig mewn ysgol gyfun leol ac roedd y gweithwyr CSV yn gweithio yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Gweithiodd y prosiectau hyn ochr yn ochr â nifer o brosiectau sefydledig eraill a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, y Gwasanaeth Ieuenctid, addysg, yr awdurdod, yr heddlu, *Fusion* a CAMHS. Roedd y Bwrdd Rheoli yn ymdrin â chynaliadwyedd hirdymor y prosiectau newydd.
- Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid hefyd yn gallu manteisio ar Wasanaeth Cynadledda i Deuluoedd a sefydlwyd mewn partneriaeth â'r NCH ac a reolwyd gan yr NCH.

Arfer da

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu yn cael eu nodi gan nifer o asiantaethau gan gynnwys: swyddogion lles addysg, swyddogion cymunedol yr heddlu, ysgolion, y Gwasanaeth Ieuenctid, timau gofal plant, rhieni/gofalwyr a wardeiniaid cymunedol.

Cafodd atgyfeiriadau eu gwneud naill ai'n uniongyrchol at y gweithwyr ASBO neu drwy reolwr y Tîm Ymyriadau Cynnar. Yn y ffordd gyntaf, roedd y gweithwyr ASBO yn gweithredu drwy'r protocol ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd yn cwmpasu Ardal Heddlu Gwent. Yn yr ail ffordd, gwnaed atgyfeiriadau yn uniongyrchol at reolwr y Tîm Ymyriadau Cynnar a ddyrannodd yr achos, os oedd yn briodol, i'r swyddogion gwyro a swyddogion yr heddlu er mwyn iddynt gymryd camau cychwynnol.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Cafodd y gwasanaethau a ariannwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymorth grant yn flynyddol, gan beri rhywfaint o ansicrwydd ymhlith y staff a gyflogwyd ynghylch y dyfodol.
- Er bod amrywiaeth o adnoddau ar gael, ymddengys na chawsant eu cydlynu'n effeithiol drwy'r amser. Roedd angen i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid barhau i ddatblygu ei wasanaethau atal a sicrhau bod prosesau clir ar waith ar gyfer atgyfeirio a monitro a gwerthuso eu heffeithiolrwydd.

3.2 Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu hatal rhag aildroseddu.*

Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ymrwymedig i weithio gyda phlant a phobl ifanc a gwelsom rai enghreifftiau da o waith arloesol ac adeiladol. Fodd bynnag, roedd y newidiadau rheoli yn ystod y flwyddyn

ddiwethaf wedi amharu ar y gwaith, gan arwain at lefel isel o oruchwyliaeth gan reolwyr, methu â chyrraedd y safonau cenedlaethol ac aelodau unigol o staff yn peidio ag ymgysylltu'n effeithiol â thimau, asiantaethau ac adnoddau eraill yn gyson.

Codwyd y materion hyn gyda Rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar ôl wythnos gyntaf yr arolygiad ym mis Hydref/Tachwedd 2005 ac roeddem yn falch o nodi bod camau cadarnhaol wedi'u cymryd i ymdrin â'r diffygion erbyn ail wythnos mis Rhagfyr 2005.

Cryfderau:

- Ar y ffeiliau a archwiliwyd gennym, cwblhawyd 78% o asesiadau o fewn yr amserlen a gynhwyswyd yn y safon genedlaethol berthnasol ac roedd 71% o ansawdd digonol.
- Cymerwyd camau yn y cynllun goruchwylio ac adolygu hyfforddiant cychwynnol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o ofynion gorchymyn neu drwydded mewn 92% o achosion, ac roedd cyswllt agos rhwng ymyriadau a gynlluniwyd a risg o niwed a aseswyd mewn 80% ohonynt. Roedd cynlluniau goruchwylio ac adolygu hyfforddiant cychwynnol bob amser yn ystyried hil, iaith a diwylliant.
- Roedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gronfa o adnoddau yr oedd rheolwyr achos a staff arbenigol yn eu defnyddio i gymell y plant a'r bobl ifanc yr oedd yn eu goruchwylio ac i ymdrin â'u hymddygiad troseddol.
- Darparwyd gorchmynion atgyfeirio yn unol â safon dda ac eithrio cyfranogiad dioddefwyr. Paratowyd adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer y panel a ymgynullodd o fewn 20 diwrnod gwaith mewn 70% o achosion, a bodlonodd y contract y gofynion y cytunwyd arnynt mewn 70% o achosion.
- Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn rhan o gonsortiwm o dri Thîm Troseddau Ieuenctid a rannodd ISSP Gwent. Roedd Tîm Adolygu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi cynnal adolygiad o sicrwydd ym mis Hydref 2005 a chanfu fod yr ISSP yn gweithredu yn unol â safon uchel iawn. Cyfarfu Grŵp Llywio'r ISSP, a oedd yn cynnwys pob un o'r tri Thîm Troseddau Ieuenctid ynghyd â'r heddlu a swyddogion addysg, yn chwarterol a chafodd ei gadeirio gan glerc yr ustusiaid. Yn ogystal, mynychodd rheolwr yr ISSP grwpiau diogelwch cymunedol, grwpiau troseddwyr cyson a throseddwyr eraill â blaenoriaeth a grwpiau defnyddwyr llysoedd yn ardal pob Tîm Troseddau Ieuenctid.
- Ar y cyfan gwelsom waith da iawn gyda phlant a phobl ifanc yn enwedig o ran rheoli dicter, ymddygiad troseddol, agwedd tuag at ddioddefwyr a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.
- Cafwyd tystiolaeth o weithgarwch troseddol yn ystod gorchymyn/trwydded mewn dim ond 19% o'r sampl o achosion a chydymffurfiodd 73% ohonynt ag amodau eu gorchymyn/trwydded.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Dim ond mewn 58% o achosion y cafodd cynlluniau goruchwylio a hyfforddi cychwynnol eu cwblhau'n foddhaol. Ymdriniwyd â materion

diwylliannol mewn 71% o achosion ac ymdriniwyd â materion o ran amrywiaeth mewn 33% o achosion. Dim ond traean o'r rhai a archwiliwyd a oedd yn cynnwys amcanion CAMPUS ac ymdriniwyd â phrosesau o ran dioddefwyr a phrosesau adferol mewn ychydig dros hanner ohonynt.

- Dim ond 66% o blant a phobl ifanc yn y sampl a oedd wedi cwblhau ffurflen *Beth ydych chi'n ei feddwl?*
- Roeddem yn pryderu ynghylch nifer o faterion o ran asesu a rheoli risg o niwed difrifol. Dim ond mewn 30% o achosion perthnasol yr oedd Asset risg o niwed difrifol wedi'i gwblhau ac roedd y rhai a nodwyd fel 'Pryder o Risg' neu 'Ymwybodol o Risg' wedi'u hatgyfeirio at reolwr mewn 67% o'r achosion perthnasol.
- Dim ond mewn 59% a 55% o'r sampl o achosion yn y drefn honno y cyrhaeddodd nifer yr apwyntiadau a drefnwyd ac a gadwyd y safonau cenedlaethol. Roedd angen ystyried y mater hwn fel blaenoriaeth.
- Dim ond mewn 55% o achosion y cyrhaeddodd dyfarniadau ynghylch derbynioldeb/annerbynioldeb y safon genedlaethol a dim ond mewn 25% o achosion ar gyfer camau ailalw yn sgîl torri amodau.
- Roedd Heddlu Gwent wedi mabwysiadu canllawiau'r Swyddfa Gartref/Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a gyhoeddwyd yn 2002 o ran rhoi rhybuddion terfynol, ond canfuwyd bod ansawdd y gwaith yn llawer is na'r safon ofynnol. Hysbysodd yr heddlu y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid o fewn un diwrnod o'r penderfyniad i roi rhybudd terfynol mewn 33% o achosion ac o fanylion dioddefwyr mewn 50% o achosion. Dim ond mewn 13% o achosion y gwahoddwyd dioddefwyr i gymryd rhan yn y broses o roi'r rhybudd terfynol. Cynhaliodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yr asesiad o'r plentyn neu'r person ifanc o fewn deg diwrnod gwaith mewn 44% o achosion a rhoddwyd y rhybudd terfynol o fewn 20 diwrnod gwaith mewn 63% o achosion.
- Roedd y wybodaeth am gynnydd y plentyn neu'r person ifanc ar ISSP yn annigonol, o bosibl am nad oedd yr ISSP a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gysylltiedig drwy gyfrifiadur. O ganlyniad, ymddengys nad oedd y gwaith a gyflawnwyd gan yr ISSP a'r rheolwr achos wedi'i gydamseru'n effeithiol. Fodd bynnag, ar ôl ymweld â'r ISSP roeddem yn fodlon ar y gwaith a wnaed ac yn cydnabod y byddai pethau yn gwella ar ôl cyflwyno system gwybodaeth gyfrifiadurol gyffredin [YOIS] yn y dyfodol agos.
- Roedd y mater hwn o ran rhannu gwybodaeth hefyd yn berthnasol i weithwyr arbenigol eraill yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid nad oedd eu gwaith yn ymddangos ar YOIS bob amser ac a gofnodwyd ar wahân. Dywedwyd bod y system gyfrifiadurol gyfredol yn peri llawer o'r problemau hyn oherwydd ei bod yn araf ac yn dueddol o fethu. Er y gallai hyn wedi bod yn ffactor, roeddem yn teimlo bod angen i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid archwilio ei systemau a'i brotocolau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth hefyd.

Arfer da

Ers wythnos gyntaf yr arolygiad, roedd system archwilio achosion wedi'i chyflwyno fel rhan o'r trefniadau goruchwylio staff misol i fonitro a gwella arfer yn unol â'r safonau cenedlaethol.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff iechyd plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y Tîm Troseddau Ieuenctid.*

Mae CPN hŷn wedi'i secondio i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid o CAMHS ers 2002. Roedd ganddi lwyth achosion o 20-25 o achosion, gan gynnwys rhyw ddeg achos y flwyddyn a gafodd eu hatgyfeirio o'r tu allan i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gan CAMHS, addysg a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn bennaf, ac roedd hefyd yn gysylltiedig â'r gwaith o gynnal grwpiau eraill yr oedd hi ei hun wedi'u sefydlu a chymryd rhan ynddynt. Er bod hyn i'w ganmol, nid oedd yn glir pa un a ellid ystyried bod y grwpiau hyn yn flaenoriaeth. Nid oedd Rheolwr Cyfarwyddiaeth CAMHS na chynrychiolydd y Bwrdd Iechyd Lleol ar Fwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ymwybodol o ran estynedig y CPN.

Roedd y mater o ran cyrraedd safonau cenedlaethol mewn perthynas ag asesiadau iechyd wedi'i amlygu yng nghyfarfod y Bwrdd Rheoli ym mis Tachwedd 2005 fel rhan o'r adborth EPQA iechyd meddwl. Yn dilyn y cyfarfod hwn, roedd Rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi cyflwyno sesiynau goruchwylio ffurfiol gyda'r CPN er mwyn sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i fusnes craidd. Yn ogystal, cyflwynwyd gweithdrefnau atgyfeirio diwygiedig newydd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau cenedlaethol. Nodwyd hyn yn ystod yr arolygiad fel datblygiad cadarnhaol â photensial da.

Cryfderau:

- Roedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid CPN hŷn benodedig a oedd â'r cymwysterau a'r profiad priodol i gyflawni'r rôl. Roedd wedi datblygu ei dull asesu ei hun gan fod cytundeb, yn ôl pob tebyg, na fyddai SIFA/SQUIFA yn cael eu defnyddio yng Nghymru. Cymerodd plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr ran yn yr asesiad hwn.
- Mae gweithiwr camddefnyddio sylweddau wedi'i secondio i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid o'r Prosiect *Fusion* ynghyd â dau weithiwr RAP. Cynhaliodd y gweithiwr camddefnyddio sylweddau glinig 'galw heibio' unwaith yr wythnos yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i'r rhai a oedd yn amharod i ymgysylltu â'r Gwasanaeth.
- Roedd y gweithiwr camddefnyddio sylweddau wedi datblygu ei dull asesu ei hun hefyd. Adolygodd pob gorchymyn llys newydd a chyfrannodd at yr asesiad o'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw. Byddai hefyd yn ymweld â sefydliadau carcharol i sicrhau y gellid parhau â'r gwaith gyda'r plentyn neu'r person ifanc ar ôl iddo gael ei ryddhau. Lle yr oedd yn bosibl, cafodd plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr eu cynnwys yn y broses asesu. Cafodd y gweithiwr gymorth da gan ei rhiant-sefydliad.

- Roedd y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau wedi datblygu nifer o daflenni llawn gwybodaeth a oedd yn hawdd eu darllen a dulliau o asesu problemau alcohol a chyffuriau plant a phobl ifanc a darparodd ymyriadau addas i hyrwyddo newid mewn ymddygiad. Ymgynghorodd â phlant a phobl ifanc ynghylch y gwasanaeth hefyd.
- Gwnaed atgyfeiriadau priodol mewn 75% o achosion lle y nodwyd anghenion iechyd meddwl/emosiynol ac mewn 81% o achosion a oedd yn cynnwys camddefnyddio sylweddau.
- Dangosodd y dadansoddiad o ffeiliau achos fod 34% o'r plant a'r bobl ifanc yn dangos tystiolaeth o gamddefnyddio cyffuriau a bod 44% yn dangos tystiolaeth o gamddefnyddio alcohol. Yn ogystal, ystyriwyd bod gan 41% anghenion iechyd emosiynol neu iechyd meddwl. Roeddem yn falch o nodi bod 75% a 81% yn y drefn honno wedi'u hatgyfeirio i gael ymyrraeth arbenigol. Fodd bynnag, dim ond mewn 25% o'r achosion lle yr oedd Asset wedi'i adolygu yr oedd gwelliannau yn amlwg.
- Roedd y CPN yn gallu manteisio ar gymorth arbenigol gan y CAMHS ac roedd yn gallu gwneud atgyfeiriadau uniongyrchol. Roedd CAMHS fforensig wedi'i sefydlu'n ddiweddar ac roedd ar gael dau ddiwrnod yr wythnos. Roedd y CPN hefyd wedi sefydlu grŵp ar gyfer merched a menywod ifanc gyda'r nod o wella eu hunan-barch drwy hybu iechyd da.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Nid oedd yn bosibl cadarnhau pa un a oedd yr asesiadau o iechyd yn effeithiol wrth nodi angen am nad oedd system ar gyfer monitro neu archwilio clinigol ffurfiol ar gael. Câi ymagwedd fwy strwythuredig tuag at gynllunio a darparu gwasanaethau ei rhoi ar waith ond nid oedd wedi cael unrhyw effaith sylweddol ar adeg yr arolygiad.
- Yn ogystal, ymddengys nad oedd unrhyw sgrinio systematig o blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl. Roedd y CPN wedi dechrau darllen pob asesiad Asset newydd at y diben hwn, ond roedd yr ymagwedd hon yn dibynnu ar gofnodi gwybodaeth o safon.
- Mewn 28% o'r sampl, roedd tystiolaeth o anghenion iechyd corfforol ond dim ond 43% a oedd wedi'u hatgyfeirio'n briodol i gael cymorth.
- Ymddengys nad oedd unrhyw systemau ar waith i hyrwyddo ymateb cydgysylltiedig yn cynnwys gweithwyr arbenigol a rheolwyr achos. Er i'r cyfarfodydd dyrannu gael eu trefnu, roedd angen egluro eu rôl er mwyn gallu gwneud defnydd mwy effeithlon o'r adnoddau a oedd ar gael. Byddai camau o'r fath yn gwella morâl y staff a byddent o fudd uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Roedd angen i Fwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, gyda'r Gwasanaeth Iechyd, ddatblygu amcanion wedi'u nodi'n glir o rôl y CPN o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a gweithdrefnau ar gyfer manteisio ar wasanaethau iechyd meddwl.
- Roedd angen eglurder gwell hefyd o ran cydlynu'r gwasanaethau a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau *Fusion*,

Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau'r heddlu a gweithiwr cyffuriau arbenigol CAMHS.

- Roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer 2005/2006 wedi nodi amrywiaeth o fylchau yn y gwasanaeth ond ymddengys nad oedd y materion hyn wedi'u trafod fel mater strategol gan y Grŵp Rheoli.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu diogelu drwy waith y Tîm Troseddau Ieuenctid.*

Nid oeddem yn hyderus bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu'n gyson drwy waith y Tîm Troseddau Ieuenctid. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i arfer anghyson a rheolaeth oruchwylio wan. Yn y gorffennol, nid oedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi gweithio'n effeithiol fel rhan o Is-adran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yr Adran Lles Cymdeithasol a Thai. Fodd bynnag, roeddem yn fodlon bod y Rheolwr o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid bellach yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy drefnu i'r rheolwyr gweithredol gyfarfod â phob un o'r Timau Plant ar ddechrau 2006 i wella cydberthnasau gwaith ac adolygu arferion gwaith. Felly, roedd newidiadau mawr yn cael eu gwneud o ran integreiddio'r Gwasanaeth Troseddau Plant â'r Tîm Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r awdurdod ehangach.

Roedd Rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn aelod o'r Tîm Rheoli Plant a Theuluoedd ac roedd ar secondiad ar y pryd o'i swydd fel arweinydd tîm yn gyfrifol am amddiffyn plant. Ategodd y secondiad hwn secondiad Rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd am 12 mis i weithio gyda phlant a phobl ifanc a oedd yn Derbyn Gofal gan yr awdurdod. Roedd gan y broses gyfnewid y potensial i sicrhau manteision hirdymor o ganlyniad i gyfathrebu a dealltwriaeth fwy effeithiol.

Roedd yr awdurdod hefyd wedi sefydlu UDRh Estynedig Dysgu a Diwylliant Plant. Roedd gan y tîm hwn rôl allweddol o ran rhianta corfforaethol ac roedd yn gysylltiedig â strwythur Cabinet yr awdurdod o dan arweiniad Cyfarwyddwr Corfforaethol. Roedd ganddo gylch gwaith clir i ddiogelu a gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc drwy waith partneriaeth gwell. Roedd dau weithdy wedi'u cynnal ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2005 i hyrwyddo cyfathrebu, a gwnaed trefniadau i ledaenu a chael gwybodaeth rhwng lefelau gwahanol y strwythur.

Cryfderau:

- Cynhaliwyd asesiadau agored i niwed fel rhan o asesiad Asset. Cafodd unrhyw blentyn neu berson ifanc yr ystyriwyd ei fod yn wynebu risg o niwed ei atgyfeirio at Wasanaethau Plant a Theuluoedd o dan weithdrefnau'r ACPC. Roedd hyfforddiant amddiffyn plant sylfaenol yn rhan o hyfforddiant craidd staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
- Roedd protocol gwaith wedi'i ddatblygu rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer rheoli achosion a oedd gan y ddau wasanaeth.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Fe'n hysbyswyd gan y staff y gellid gwella'r ddealltwriaeth o briod rolau staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a staff y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Yn y cyd-destun hwn, roedd angen i'r ddau wasanaeth adolygu eu protocolau arfer ynghylch eu cyfrifoldeb ar y cyd am weithio gyda phlant a oedd yn agored i niwed a Phlant sy'n Derbyn Gofal.
- Canfuom enghreifftiau o blant a phobl ifanc a oedd yn agored i niwed yr oedd angen llety arnynt yn cael eu rhoi mewn cyfleusterau gwely a brecwast anaddas am nad oedd unrhyw leoedd eraill ar gael. Roedd angen i Fwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid roi sylw brys i hyn.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu galluogi a'u hannog i gyflawni eu potensial.*

Cryfderau:

- Mynychodd y swyddog addysg y fforwm *Addysg ac Eithrio yn yr Ysgol* bob wythnos, gan alluogi'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i atgyfeirio unrhyw blentyn neu berson ifanc yr oedd ganddo bryderon mawr yn ei gylch. Yn y modd hwn, cafodd y rhai nad oeddent yn cael yr addysg yr oedd ganddynt yr hawl i'w chael eu dwyn i sylw'r gwasanaethau lles a darparwyr addysg amgen drwy'r amser. Roedd gan y fforwm system electronig dda ar gyfer cofnodi ei gamau gweithredu a'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Roedd swyddog addysg y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid hefyd wedi datblygu systemau da ar gyfer cofnodi ac olrhain cynnydd addysgol plant a phobl ifanc. Canfuom enghreifftiau unigol o arfer da iawn.
- Roedd canran y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a oedd yn cael addysg a hyfforddiant wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o 40% i 73%. Canfuom fod hyn wedi digwydd yn bennaf yn sgîl gallu'r swyddog addysg i weithio'n effeithiol o fewn y system addysg a chydag asiantaethau hyfforddi i ddod o hyd i leoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd wedi bod allan o addysg brif ffrwd amser llawn am gyfnodau annerbyniol.
- Cydweithiodd y swyddog addysg a'r CPN yn agos ar achosion cymhleth o ran plant a phobl ifanc ag anableddau a/neu anghenion iechyd meddwl sylweddol.
- Cynigiwyd apwyntiadau gyrfaoedd wythnosol yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gan y cynghorwyr gyrfaoedd cymunedol, gan roi cyngor ar gyfleoedd addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.
- Cafodd plant a phobl ifanc a gafodd ddarpariaeth cwricwlwm amgen eu cefnogi'n dda a chynigiwyd cyfleoedd da iddynt ddatblygu, llwyddo ac ennill cymwysterau cydnabyddedig. Cynigiodd rhaglen sgiliau 12

wythnos yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid hyfforddiant personol, iechyd ac addysg i'r rhai nad oeddent mewn addysg.

- Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gallu ailgynnwys plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau ac addysg adeiladol drwy'r CSVs a'r Fenter Datblygu Dysgu mewn ysgolion.
- Roedd gwaith yr ISSP yn annog plant a phobl ifanc i gyflawni nodau dysgu bach mewn pynciau ymarferol, yn ogystal â rhai cymwysterau addysgol sylfaenol a thystysgrifau Dug Caeredin. Cafodd hunan-barch ei wella drwy nodi llwyddiant ar ffurf weledol.
- Yn y sampl o ffeiliau achos, canfuom fod 67% o blant oedran ysgol yn cael problemau yn yr ysgol, yn amrywio o fwlio i waharddiadau parhaol. Roeddem yn falch o ganfod bod camau i ymdrin â'r anawsterau hyn wedi'u cymryd mewn 83% o achosion.
- Nododd pob person ifanc ond dau y cysylltwyd â hwy yn ystod yr arolygiad eu bod wedi cael cymorth o ran eu haddysg a'u hyfforddiant.
- Gweithiodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gyda rhieni/gofalwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hawliau i ofyn am asesiad a datganiad ffurfiol.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Er gwaethaf amrywiaeth dda o ddarpariaeth cwricwlwm amgen a gwasanaethau cymorth a gynigiwyd gan yr awdurdod, nid oedd digon o leoedd i ddiwallu anghenion unigol y plant a'r bobl ifanc hyn a oedd yn agored i niwed, gan sicrhau eu bod yn cael yr addysg a'r hyfforddiant yr oedd ganddynt yr hawl i'w cael. Roedd angen i'r Bwrdd Rheoli fynd i'r afael â'r mater hwn ar lefel strategol.
- Canfuom fod ysgolion ar y cyfan yn anfodlon iawn cynnig lleoedd i blant a phobl ifanc a oedd wedi'u gwahardd, a oedd wedi troseddu ac a oedd wedi bod yn y ddalfa. Roedd angen i ysgolion ac asiantaethau eraill weithio mewn partneriaeth yn fwy effeithiol er mwyn meithrin y gallu i helpu plant a phobl ifanc i ailintegreiddio i mewn i addysg brif ffrwd.
- Fe'n hysbyswyd nad oedd rhai ysgolion yn gwahardd disgyblion yn ffurfiol ond yn aros i'r plentyn neu'r person ifanc ddychwelyd cyn cymryd unrhyw gamau. Yn sgîl yr arfer hwn, roedd achosion yn llithro, ac roedd y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei wahardd o'r ysgol mewn gwirionedd ac yn methu cael gafael ar ddarpariaeth amgen.
- Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd yr AALl yn glynu wrth y Protocol Asesu Risg a luniwyd gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Nododd y protocol hwn: *"Dim ond pan fydd yn ymwneud â'r asesiad risg y caiff gwybodaeth ynghylch ymddygiad troseddol pobl ifanc ei rhannu".* Roedd angen ymdrin â'r mater hwn er mwyn dileu'r posibilrwydd o gamwahaniaethu.
- O'r sampl o ffeiliau achos a ddarllenwyd, dim ond 43% o bobl ifanc ddi-waith dros 16 oed a oedd wedi dilyn addysg bellach neu hyfforddiant ac roedd 54% wedi cael cyswllt â chynghorydd gyrfaoedd

personol. Gallai'r Cwmni Gyrfaoedd ehangu ei wasanaethau i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid drwy fynychu cyfarfodydd cyn rhyddhau ar gyfer pobl ifanc dros 16 mlwydd oed a oedd yn y ddalfa a sicrhau bod hyfforddiant addas ar gael iddynt cyn iddynt gael eu rhyddhau. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai'r gwasanaeth yn olrhain pobl ifanc ac yn cynnig cymorth iddynt fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth. Canfuom fwlch mewn mentora effeithiol ar gyfer pobl ifanc dros oedran ysgol statudol.

- Nid oedd swyddog addysg y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gallu gofyn am asesiadau addysgol arbenigol ond gallai gyfrannu at Gynlluniau Addysg Unigol ac Adolygiadau Blynyddol o Ddatganiadau a gwnaeth hynny.
- Roeddem yn siomedig o ganfod, pan oedd camau wedi'u cymryd i ymdrin â phroblemau yn yr ysgol, mai dim ond mewn 73% o achosion yr ystyriwyd eu bod yn effeithiol.

Arfer da

Roedd Gwasanaeth Dysgu yn y Cartref wedi'i leoli yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi'i sefydlu gyda'r Gwasanaeth *Addysg ac Eithrio yn yr Ysgol*. Rhoddodd gyfle i blant a phobl ifanc yr ystyrid eu bod yn peri risg rhy uchel i gael eu haddysgu yn eu cartrefi eu hunain gael darpariaeth addysgol. Roedd yn cynnwys dau grŵp ar wahân, yn cyfarfod am ddwy awr a hanner. Yn ystod yr arolygiad, mynychodd 12 o blant a phobl ifanc y grwpiau hyn, ac roedd presenoldeb misol yn fwy na 80% ar gyfartaledd. Roedd gan y prosiect athro, gweithiwr cymorth a mentor a darparodd addysg yn unol â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol. Roedd hefyd yn gysylltiedig â'r Prosiect Moduro a chyfleoedd hamdden a phrofiad gwaith eraill.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc eu gwella drwy eu cynnwys mewn ymgynghoriadau ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Troseddau Ieuenctid.*

Cryfderau:

- Gwahoddwyd plant a phobl ifanc a oedd yn destun gorchmynion atgyfeirio i gwblhau holiaduron ar ôl cwblhau'r gorchymyn, gyda chymorth CSV os oedd angen. Ni chynhwyswyd enwau yn y system ac felly nid oedd y gwirfoddolwr yn ymwybodol o enw'r rheolwr achos a oedd yn gyfrifol.
- Roedd gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd grŵp ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc a fynychwyd gan swyddog gwybodaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
- Defnyddiodd ISSP 'Viewfinder' yn rheolaidd i gadarnhau barn plentyn neu berson ifanc ar gamau gwahanol o'r broses.
- Dim ond dau berson ifanc a gafodd gyfweliad yn ystod yr arolygiad ond dychwelodd deg person ifanc holiaduron wedi'u cwblhau. Nododd

y mwyafrif ohonynt fod ganddynt gydberthnasau da iawn gyda staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Roedd pob un ohonynt wedi cael cymorth gyda ffactorau a oedd yn arwain at droseddu megis materion o ran y teulu a chydberthnasau, ffordd o fyw, meddylfryd ac ymddygiad, defnyddio sylweddau, addysg a materion iechyd. Yn ogystal, roeddent wedi cael cyfleoedd i ymdrin â'u hymddygiad troseddol a'u hagweddau tuag at ddioddefwyr. Roedd yn amlwg bod yr ymyriadau wedi effeithio ar eu bywydau:

- *"Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi fy nghadw'n brysur ac wedi fy rhwystro rhag hongian o gwmpas. Mae wedi fy helpu i beidio â throseddu.*
- *Maen nhw'n bobl neis, maen nhw'n gwrando arnoch ac yn eich helpu.*
- *Ni ddylwn gynhyrfu oherwydd dyna pryd y byddaf yn troseddu, mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi fy helpu i ddechrau rheoli fy nicter."*

Meysydd ar gyfer gwella:

- Ni chafodd adborth ei gasglu'n gyson gan blant a phobl ifanc ac felly ni chafodd ei ddefnyddio'n rheolaidd i adolygu a llywio arfer. Oherwydd nad oedd enwau yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori ar orchmynion atgyfeirio, nid oedd dull o roi adborth i swyddogion unigol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
- Roedd angen i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ddatblygu ei weithdrefnau ymgynghori, er mwyn sicrhau yr ymgynghorid â phlant a phobl ifanc yn rheolaidd. Dylai wedyn ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio arfer a hyrwyddo datblygiad gwasanaethau.

3.3 Gwaith gyda rhieni/gofalwyr

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff rhieni/gofalwyr eu cefnogi wrth ymdrin â throseddu eu plant.*

Nid oedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gydlynydd a gweithiwr cymorth rhianta penodol, ond roedd wedi trefnu i waith rhianta gael ei rannu rhwng aelodau gwahanol o'r tîm. Roedd hyn yn peri dryswch, yn ein barn ni, am fod y rhan fwyaf o staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid y cyfwelwyd â hwy yn credu eu bod yn gwneud gwaith rhianta.

Fe'n hysbyswyd bod swyddogion heddlu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi'u hyfforddi ac yn cefnogi rhieni/gofalwyr, bod gweithiwr ASBO wedi mynychu cwrs rhianta, a hefyd bod y CPN a rheolwyr achos yn cyflawni gwaith rhianta ffurfiol yn ôl eu disgresiwn eu hunain.

Nid oedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn rhedeg grwpiau rhianta ar y pryd ond roedd wedi ceisio gwneud hynny yn y gorffennol, a hynny'n aflwyddiannus. Mae ganddo becyn adnoddau hefyd *Teuluoedd Hapus* ar gyfer gweithio gyda theuluoedd naill ai'n unigol neu mewn grŵp, ond penderfyniad pob aelod unigol o staff oedd ei ddefnyddio ai peidio.

Cryfderau:

- Lle yr oedd plentyn neu berson ifanc o dan 16 mlwydd oed, cyfwelwyd â'r rhieni/gofalwyr a bu iddynt chwarae rhan yn yr asesiad mewn 84% o achosion, ac adlewyrchodd yr asesiad eu barn benodol ar anghenion eu plentyn mewn 86% o achosion.
- Roedd y mwyafrif o blant a phobl ifanc yn byw gartref gyda'u rhieni/gofalwyr. Cyrhaeddodd ymweliadau â'r cartref ar gyfer pob math o orchmynion, ac eithrio rhybuddion terfynol, y safon genedlaethol mewn 87% o achosion.
- Cafodd rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc a orchwyliwyd gan y Tîm Troseddau Ieuenctid eu cynghori a'u hysbysu o ddatblygiadau drwy gydol y gorchymyn yn briodol mewn 76% o achosion. Nododd tri o'r holiadur a ddychwelwyd gan rieni/gofalwyr eu bod wedi gwneud gwaith rhianta a dywedodd y trydydd fod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi bod yn gefnogol iawn.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Dylai'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid adolygu ei drefniadau ar gyfer helpu rhieni/gofalwyr i ymdrin â throseddu eu plant am nad oedd y trefniadau presennol yn benodol nac yn glir ac roedd angen eu trefnu a'u rheoli'n well.
- Er bod ymweliadau wedi'u cynnal â rhieni/gofalwyr a chawsant eu cefnogi, dim ond 20% a gafodd ymyriad rhianta wedi'i gynllunio. Cydnabuwyd bod angen adnoddau ychwanegol i hyrwyddo asesiadau rhianta cadarn a rhaglen o ymyriadau. Fe'n hysbyswyd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi rhyddhau arian ataliol yr oedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi penderfynu ei ddefnyddio i recriwtio dau swyddog rhianta yn 2006.

Arfer da

Eglurodd un rhiant sengl y cyfwelwyd â hi ei bod wedi cael anhawster mawr yn y gorffennol i ddiwallu anghenion dau o'i phlant yn eu harddegau a oedd wedi dod yn droseddwyr cyson. Drwy gymorth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, cafodd ei hannog i fyfyrio ar ei rôl fel rhiant a thros gyfnod o amser i ddilyn rhaglen a'i helpodd i ddatblygu sgiliau newydd gan ei galluogi i reoli'r sefyllfa. Roedd y rhain yn cynnwys gosod ffiniau, bod yn gadarn ac yn gyson a gwneud i'w phlant wynebu canlyniadau eu hymddygiad. Cafodd ei grymuso ac roedd o'r farn bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ei theulu.

ASESIAD CYFFREDINOL O WAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED

Dyfernir bod yr adran hon wedi'i chyflawni'n ddigonol.

4. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N DESTUN GORCHMYNION CADW A HYFFORDDIANT

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n cael Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant yn aildroseddu ei leihau drwy ymyriad y Tîm Troseddau Ieuenctid drwy asesiad.*

Yn ystod yr arolygiad bu i ni ddarllen saith ffeil achos ac roeddem yn falch o nodi bod y mwyafrif ohonynt yn cael eu rheoli yn unol â gofynion y safonau cenedlaethol.

Roedd gan Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd chwe gweithiwr cymdeithasol ac un swyddog prawf a oedd yn gyfrifol yn bennaf am oruchwylio plant a phobl ifanc yn y gymuned ac yn y ddalfa ac a ddarparodd ymagwedd gyson.

Cryfderau:

- Cyfwelwyd â phob un o'r saith plentyn a pherson ifanc yn y sampl o achosion ar unwaith ar ôl cael eu dedfrydu.
- Cyrhaeddodd yr asesiad cychwynnol y safonau cenedlaethol o ran amseroldeb, ansawdd a chyfranogiad y plentyn neu'r person ifanc yn yr asesiad ym mhob un o'r achosion. Yn ogystal, ymdriniodd ag anghenion unigol penodol pob plentyn neu berson ifanc a'u hadlewyrchu. Cwblhaodd 83% y ffurflen *Beth ydych chi'n ei feddwl?*
- Aseswyd ffactorau risg a ffactorau o ran bod yn agored i niwed hefyd yn yr adroddiad ôl-llys a chyflëwyd unrhyw bryderon mawr ar unwaith i'r sefydliad dros y ffôn, cyn i'r plentyn neu'r person ifanc gyrraedd.
- O ran Plant a oedd yn Derbyn Gofal, ymgynghorodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid â'r Tîm Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod y gwaith goruchwylio ym mhob achos, gan fynychu adolygiadau a chymryd camau lle yr ystyrid eu bod yn agored i niwed. Cynhwyswyd y wybodaeth hon yn yr asesiad cychwynnol hefyd.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Nid oedd yn glir pa un a oedd asesiad o anghenion iechyd wedi'i gyflawni cyn dedfrydu, ond roeddem yn fodlon bod CPN y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid mewn cysylltiad â'r staff gofal iechyd yn y sefydliad ac yn gallu sicrhau triniaeth barhaus yn ystod rhannau carcharol a chymunedol y ddedfryd.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n cael Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant yn aildroseddu ei leihau drwy ymyriad y Tîm Troseddau Ieuenctid drwy gysylltu â'r plentyn neu'r person ifanc a chyswllt effeithiol â'r sefydliad diogel yn ystod y cyfnod carcharol.*

Rhoddwyd blaenoriaeth uchel i achosion Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant ac fe'u dyrannwyd i aelodau o'r tîm â chymwysterau a phrofiad priodol.

Cryfderau:

- Cymerodd y rheolwr achos ran yn y gwaith cynllunio ac adolygu dedfryd mewn 86% o achosion gan sicrhau bod yr holl drefniadau rhyddhau angenrheidiol yn cael eu trafod ac y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod adolygu terfynol. Cadwyd mewn cysylltiad dros y ffôn, drwy'r ffacs, drwy bost electronig, drwy lythyr a thrwy ymweliadau personol.
- Rhoddodd y prosiect RAP gymorth yn ystod y cyfnod carcharol i blant a phobl ifanc a oedd yn camddefnyddio cyffuriau.
- Pe câi plentyn neu berson ifanc ei roi mewn sefydliad diogel yn bell iawn o'i gartref, byddai'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gwneud cais iddo gael ei drosglwyddo'n nes at ei gartref er mwyn gwneud ymweliadau gan y teulu yn haws.
- Hwylusodd staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid drefniadau trafnidiaeth fel y gallai rhieni/gofalwyr fynychu cyfarfodydd cynllunio ac adolygu lle bynnag y bo'n bosibl.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Byddai cyfranogiad y Gwasanaeth Gyrfaoedd ac addysg yn y broses cynllunio cyn rhyddhau yn gwella cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i blant a phobl ifanc ar ôl iddynt gael eu rhyddhau yn sylweddol. Yn ogystal, gellid gwella'r parhad ar gyfer y rhai a oedd mewn addysg amser llawn o'r blaen yn sylweddol. Yn y sampl o ffeiliau achos, dim ond 67% o'r gwaith a ddechreuodd yn y ddalfa o ran addysg a hyfforddiant a barhaodd ar ôl i'r person gael ei ryddhau.

Arfer da

Cyfathrebodd y prosiect RAP â'r plant a'r bobl ifanc yn ystod eu dedfryd ac, ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gymuned, datblygodd rhaglenni ymyrryd dwys i'r rhai â phroblemau cyffuriau difrifol lle yr oedd yn briodol.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n cael Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant yn aildroseddu ei leihau drwy ymyriad y Tîm Troseddau Ieuenctid drwy ailintegreiddio yn y gymuned.*

Cryfderau:

- Paratowyd i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yn y cyfarfodydd cyn rhyddhau, naill ai drwy sicrhau bod yr aelod arbenigol perthnasol o staff yn mynychu neu drwy staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cysylltu ag asiantaethau partner.
- Cyrhaeddwyd y safonau cenedlaethol mewn perthynas â phresenoldeb a gorfodi ar ôl rhyddhau ym mhob achos.
- Roedd plant a phobl ifanc yr ystyriwyd eu bod yn peri risg uchel i'r gymuned neu bobl eraill yn destun MAPPA a lluniwyd cynllun amddiffyn.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Dychwelodd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc i'w cartrefi at eu teuluoedd ac i'r un cymdogaethau a grwpiau cyfoedion. Nid oedd llawer o newid yn y ffactorau a oedd yn arwain at droseddu; gwellodd ffordd o fyw, trefniadau byw a chydberthnasau teuluol a phersonol 14% yn unig ac nid oedd unrhyw welliant o ran y gymdogaeth. Serch hynny, dylid canmol ymdrechion y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i ailintegreiddio plant a phobl ifanc yn y gymuned.

Dyfarniad allweddol:

- *Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn ei waith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant.*

Cafwyd tri holiadur gan bobl ifanc a oedd yn bwrw eu dedfryd Gorchymyn Cadw a Hyfforddiant. Nododd pob un ohonynt eu bod yn cael cymorth ac yn dilyn rhaglenni priodol tra eu bod yn y ddalfa. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cynnwys mynegiadau o ddicter, roeddent yn gwadu'r angen am gymorth yn ystod y ddedfryd ac ni roddwyd unrhyw arwydd ganddynt o unrhyw gynlluniau ac eithrio dychwelyd adref neu gael gwaith pan fyddant yn cael eu rhyddhau.

Ym mis Medi 2005, cafodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ei asesu drwy'r system EPQA mewn perthynas ag adsefydlu. Roedd hyn yn cynnwys archwiliad ffeil mewnol o 25 o ffeiliau achos a ddilyswyd yn annibynnol gan gynrychiolydd o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a gytunodd y dylid rhoi gradd 3 i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, sef y sgôr uchaf a oedd ar gael.

Cryfderau:

- Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ymrwymedig iawn i wella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i Orchmynion Cadw a Hyfforddiant ac roedd wedi dyrannu canran fawr o'i adnoddau i'r gwaith hwn.
- Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn arbennig o effeithiol wrth gyrraedd y safonau cenedlaethol mewn perthynas ag asesu, diogelu a chynllunio triniaeth, a rhyddhau unigolyn ar drwydded.

Meysydd ar gyfer gwella:

- Er bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gwneud llawer i gefnogi plant a phlobl ifanc, ymddengys nad oedd hyn yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y ffactorau a oedd yn effeithio ar eu risg o droseddu eto.
- Nid ymdriniwyd yn ddigonol ag anghenion addysg a hyfforddiant ac anghenion iechyd plant a phobl ifanc ar drwyddedau Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant.
- Yn y sgôr Asset ddiweddaraf, dim ond mewn 33% o achosion y gwelwyd gwelliant ac nid adolygwyd Asset mewn 57% o achosion. Yn ogystal, cafwyd tystiolaeth o weithgarwch troseddol pellach mewn 33% o achosion a chyfradd lwyddo o ddim ond 50% o ran cydymffurfio â gofynion y drwydded. Roedd y gwelliannau o ran ffactorau a oedd yn arwain at droseddu yn siomedig hefyd, ac ni welwyd unrhyw newid mewn sawl maes allweddol megis agwedd tuag at droseddu a chymhelliant i newid.

ASESIAD CYFFREDINOL O WAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N DESTUN GORCHMYNION CADW A HYFFORDDIANT

Dyfernir bod yr adran hon yn dda.

5. DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL

Dyfarniad allweddol:

- *Mae dioddefwyr plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu o'r farn eu bod wedi cael eu helpu drwy ymyriad y Tîm Troseddau Ieuenctid i ddod â'r achos i ben.*

Roedd dau swyddog yr heddlu a oedd yn gweithio yn Nhîm Ymyriadau Cynnar y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu gwaith gyda dioddefwyr. Bu iddynt benderfynu pa lefel o gyswllt a fyddai'n briodol, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb yr achos ac agwedd y plant a'r bobl ifanc. Pe credent y byddai ymyriad yn arwain at gyfle cadarnhaol yn ymwneud â'r dioddefwr, gwnaed trefniadau drwy'r swyddog gwneud iawn.

Cydlynwyd cynadledda adferol gan swyddogion yr heddlu a'r rheolwr achos a oedd yn goruchwylio'r plentyn neu'r person ifanc. Os dewisodd y dioddefwr broses gwneud iawn anuniongyrchol, gofynnwyd iddo am ei farn ar y math o weithgarwch a fyddai'n addas yn ei farn ef. Gofynnwyd hefyd a fyddai am gael llythyr ymddiheuro fel rhan o'r gwaith a wnaed gyda'r plentyn neu'r person ifanc. Pa un a oedd y broses gwneud iawn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, cynigiwyd cymorth parhaus a'r wybodaeth ddiweddaraf i'r dioddefwr. Os nododd nad oedd am gael unrhyw gysylltiad ac eithrio cael ei hysbysu o'r canlyniad yn y llys, yna ni wnaed unrhyw gysylltiad pellach ag ef.

Cryfderau:

- Rhoddwyd taflen wybodaeth i ddioddefwyr yn esbonio gwaith y tîm mewn perthynas â phrosesau adferol a mathau o gamau gwneud iawn y gallai plentyn neu berson ifanc eu gwneud. Pe byddai'r dioddefwr yn penderfynu cymryd rhan, yna cyfeirid ei achos at y swyddog gwneud iawn er mwyn iddo gymryd camau. Cydlynwyd cynadledda adferol gan swyddogion yr heddlu gyda'r rheolwr achos perthnasol yn y tîm.
- Roedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid nifer o weithgareddau gwneud iawn yn y gymuned gan gynnwys gweithio i bobl oedrannus a helpu prosiectau cymunedol ac amgylcheddol wedi'u cefnogi gan staff a gwirfoddolwyr unigol.
- Cynigiwyd y cyfle i ddioddefwyr gymryd rhan yn un o gyfarfodydd y panel atgyfeirio a chael cymorth aelod gwirfoddol o'r panel â'r hyfforddiant addas, pe bai'n mynychu'r cyfarfod.
- O'r sampl o ffeiliau achos, cafwyd proses gwneud iawn anuniongyrchol, heb i'r dioddefwr gymryd rhan, mewn 78% o

achosion ac roedd llythyrau ymddiheuro wedi'u paratoi mewn 83% o achosion**.**

Meysydd ar gyfer gwella:

- Er bod y pwyslais ar waith gyda'r dioddefwr wedi'i ymestyn i'r tîm cyfan, ymddengys nad oedd digon o amser reoli wedi'i ddyrannu iddo er mwyn iddo fod yn effeithiol. Nid oedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid VLO nac aelod o staff a oedd yn cyflawni'r rôl hon, wedi'i gefnogi gan bolisïau a gweithdrefnau clir. Yn sgîl y ffaith nad oedd swyddog arbenigol, nid oedd eglurder ar y gorau ac roedd gwrthdaro â staff a oedd yn credu nad oedd gwaith gyda dioddefwyr neu drefnu camau gwneud iawn yn rhan o'u rôl. Ymddengys fod bwlch rhwng y cyswllt a wnaed gan swyddogion yr heddlu â dioddefwyr a'r gwaith a wnaed gan reolwyr achos a'r plentyn neu'r person ifanc yr oedd angen ymdrin ag ef.
- O'r dadansoddiad o'r sampl o ffeiliau, dim ond mewn 29% o achosion yr ymgynghorwyd â dioddefwyr ynghylch cyfiawnder gwneud iawn ac adferol a dim ond mewn 10% o'r achosion y'u gwahoddwyd i gymryd rhan mewn gwaith cyfiawnder adferol gyda'r plentyn neu'r person ifanc neu yr ymgynghorwyd â hwy ynglŷn â hyn. Fodd bynnag, ni chawsom unrhyw dystiolaeth bod cynadleddau adferol wedi'u cynnal.
- Cynhaliwyd paneli atgyfeirio yn swyddfa'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a oedd ar ochr ddwyreiniol ardal yr awdurdod. O'r blaen roeddent wedi'u cynnal mewn rhannau gwahanol o'r gymuned ond daeth yn rhy anodd gweinyddu hyn. Parhaodd hyn i fod yn her a dylid ei hystyried ymhellach am nad yw'r lleoliad presennol yn hyrwyddo mynediad hawdd.
- Roedd angen i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ddatblygu ei ddarpariaeth cyfiawnder adferol ymhellach ar gyfer dioddefwyr troseddau. Roedd angen i'r ymgysylltiad â dioddefwyr fod yn fwy rhagweithiol a chynnwys asesiadau o farn dioddefwyr a datganiadau effaith er mwyn llywio camau adferol.
- Dylid rhoi trefniadau ar waith i fonitro gwaith gyda dioddefwyr ac i ddefnyddio'r wybodaeth hon i hyrwyddo arfer mwy effeithiol a datblygiad gwasanaethau.

ASESIAD CYFFREDINOL AR GYFER GWAITH GYDA DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL

Dyfernir bod yr adran hon yn annigonol.

Arolygiad ar y cyd o Dimau Troseddau Ieuenctid

Mae'r adolygiad ar y cyd o Dimau Troseddau Ieuenctid yn rhaglen annibynnol, a ariennir gan y Swyddfa Gartref ac sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Cynhelir arolygiadau ar y cyd, gan gynnwys CSCI, Estyn, y Comisiwn Gofal Iechyd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, HMIC, Arolygiaeth Carchardai EM, Arolygiaeth Prawf EM, Ofsted ac AGCC fel y bo'n briodol. Lleolir y tîm arolygu ar y cyd o fewn Arolygiaeth Prawf EM ac fe'i harweinir ganddi.

Amcanion y Swyddfa Gartref

Mae'r arolygiad ar y cyd yn cyfrannu'n bennaf at gyflawni Amcan II y Swyddfa Gartref – 'y caiff mwy o droseddwyr eu dal, eu cosbi a'u bod yn peidio â throseddu ac y caiff dioddefwyr gymorth gwell', ac i'r gofyniad i sicrhau bod dedfrydau carcharol a chymunedol yn fwy effeithiol wrth atal pobl rhag troseddu.

Mae hefyd yn cyfrannu at gyflawni Amcan III, drwy graffu ar waith i ymdrin ag achosion o gamddefnyddio cyffuriau a sylweddau eraill, ac at amcanion perthnasol eraill y system cyfiawnder troseddol a Gwasanaethau Plant yn Lloegr ac amcanion Ymestyn Hawliau yng Nghymru.

Diben yr arolygiad ar y cyd yw cyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Cartref a thrwyddo i'r Senedd a'r cyhoedd, ar effeithiolrwydd y Timau Troseddau Ieuenctid wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol i atal troseddu gan blant a phobl ifanc, gan amddiffyn y cyhoedd, tra'n parhau i ddiogelu eu hawliau a hyrwyddo eu lles.

Nodau'r rhaglen yw:

- asesu'r effaith a gaiff Timau Troseddau Ieuenctid a sefydliadau partner ar atal plant a phobl ifanc rhag troseddu drwy oruchwyliaeth effeithiol
- arfarnu'r gwaith a wneir gan Dimau Troseddau Ieuenctid a sefydliadau partner i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu a'u galluogi i ufuddhau i'r gyfraith a byw bywydau adeiladol
- gwerthuso rôl y Timau Troseddau Ieuenctid i ddiogelu hawliau plant a phobl ifanc a hyrwyddo eu lles
- asesu i ba raddau y mae Timau Troseddau Ieuenctid yn cyrraedd y safonau a'r targedau gofynnol a bennwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- hyrwyddo arferion da yn nhrefniadau rheoli Timau Troseddau Ieuenctid a'r gwasanaethau a ddarperir i'r llysoedd a'r gymuned
- nodi tanberfformiad a chynnig argymhellion i hyrwyddo gwelliannau
- gwerthuso'r defnydd effeithiol o adnoddau
- mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth fel rhan annatod o'r broses arolygu
- cynhyrchu adroddiadau amserol sy'n cyfrannu at berfformiad gwell drwy lywio polisïau ac arferion.

Trefniadau arolygu

- Cynhelir yr arolygiad ar y cyd o'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i waith arolygu cymesur a chydgysylltiedig mewn llywodraeth leol. Mae'n:
  - gymesur â risg, a chaiff gwaith maes ei addasu yn unol ag amgylchiadau'r Tîm Troseddau Ieuenctid a dim ond i nodi canfyddiadau neu ledaenu arferion da y'i cyflawnir
  - yn ategu rhaglenni arolygu eraill, gan gynnwys y JARs yn Lloegr, ac arolygiadau a gynhelir fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella ac o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru, ac yn gydgysylltiedig â hwy
  - yn llywio dyfarniadau a wneir yn yr APA a'r CPA yn Lloegr.
- Mae'r meini prawf ar gyfer trydydd cam yr arolygiad yn canolbwyntio ar:
  - trefniadau rheoli a phartneriaeth
  - gwaith yn y llysoedd
  - gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned
  - gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant
  - dioddefwyr a chyfiawnder adferol.
- Cyn yr arolygiad, gofynnir i bob Tîm Troseddau Ieuenctid gyflwyno gwybodaeth ddethol ymlaen llaw a chwblhau hunan-asesiad, gan nodi cryfderau a meysydd ar gyfer gwella.
- Yn Lloegr, cyflawnir gwaith maes ar gyfer pob arolygiad unigol yn ystod un wythnos, cyn y JAR. Mae'n cynnwys:
  - asesiad o sampl gynrychioliadol o ffeiliau achos unigol
  - cyfarfodydd â rheolwyr perthnasol, cynrychiolwyr o sefydliadau partner ac aelodau o staff y Tîm Troseddau Ieuenctid
  - cyswllt â phlant a phobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr a dioddefwyr troseddau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc a gaiff eu goruchwylio gan y Tîm Troseddau Ieuenctid.
- Mae gwaith maes yng Nghymru yn cynnwys yr un elfennau ond mae'n gysylltiedig ag arolygiadau a gynhelir fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella ac o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid. Felly, efallai y caiff yr asesiad o ffeiliau achos ei gynnal cyn y cyfarfodydd gyda rheolwyr a staff. Fodd bynnag, mae cyfanswm yr amser arolygu a gaiff ei dreulio yn y Tîm Troseddau Ieuenctid yn aros yr un peth ag yn Lloegr.
- Mae'r asesiad o ffeiliau achos yn cynnwys sampl gynrychioliadol o rhwng 30 a 80 o blant a phobl ifanc (yn dibynnu ar lwyth gwaith y Tîm Troseddau Ieuenctid) a fu'n destun rhyw fath o ymyriad yn ystod y misoedd blaenorol. Mae'r achosion yn cwmpasu'r rhan fwyaf o orchmynion, gan gynnwys trwyddedau a chânt eu harchwilio'n fanwl. Cyfwelir â'r rheolwr achos ac unrhyw un arall sy'n cymryd rhan fawr yn y gwaith o ddarparu'r ymyriad fel rhan o'r ymarfer darllen ffeiliau a, lle y bo'n bosibl, y plentyn neu'r person ifanc ei hun a'i rieni/gofalwyr.

- Er mwyn annog hunan-asesu a chynyddu perchnogaeth o ganfyddiadau'r arolygiad, rydym yn gwahodd Timau Troseddau Ieuenctid i secondio aelod o'u staff, sef ymarferydd profiadol fel arfer, fel cynrychiolydd gyda'r tîm arolygu, am yr wythnos pan gynhelir y gwaith maes. Rydym o'r farn bod hon yn ffordd gadarnhaol o feithrin cyd-ddealltwriaeth ac atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng arolygu ac arfer.
- Caiff canfyddiadau'r arolygiad eu coladu mewn adroddiad sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu cynllunio i annog y Tîm Troseddau Ieuenctid yn ei waith, i gefnogi arferion da ac i hyrwyddo gwelliannau.
- Cyflwynir yr adroddiad i'r Ysgrifennydd Cartref, fel yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am gyfiawnder ieuenctid, a chaiff copïau eu hanfon ar yr un pryd at yr Ysgrifennydd Addysg a'r Ysgrifennydd Iechyd. Yng Nghymru, cyflwynir adroddiadau hefyd i'r Gweinidogion dros Ofal Cymdeithasol ac Adfywio, Dysgu Gydol Oes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ogystal â'r Gweinidog dros Blant.
- Cyhoeddir adroddiadau ar Dimau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg. Rydym hefyd yn anelu at gyflawni ein cyfrifoldebau eraill o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn unol â chydraddoldeb, sef yr egwyddor ganolog yn y Ddeddf.
- Anfonir copi i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae copïau hefyd ar gael i'r wasg ac ar wefan Arolygiaeth Prawf EM yn:

  http://www.inspectorates.homeoffice.gov.uk/hmiprobation

Cod ymarfer

Bydd pob arolygiad yn:

- cael ei gynnal gydag uniondeb mewn ffordd broffesiynol, diduedd a chwrtais
- galluogi dyfarniadau annibynnol i gael eu llunio, yn seiliedig ar dystiolaeth
- ceisio sbarduno staff ac ymgysylltu â hwy
- hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth drwy gydol ei brosesau
- cael ei gwblhau drwy gyhoeddi adroddiad amserol sy'n cynnwys canfyddiadau ac argymhellion ar gyfer gwella.

Dylai unrhyw un sydd am gynnig sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sydd o fewn cylch gwaith y rhaglen arolygu hon ysgrifennu at:

HM Chief Inspector of Probation
2nd Floor, Ashley House
2 Monck Street
London SW1P 2BQ

Ymagwedd sgorio

Mae'r ymagwedd sgorio wedi'i newid yn sylweddol yng ngham tri'r rhaglen arolygu er mwyn sicrhau ei bod yn cydweddu ag ymagwedd y JAR a'r Asesiad Corfforaethol yn Lloegr, a'r dyfarniadau tebyg a ddefnyddir mewn arolygiadau a gynhelir fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella ac o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru.

Yng ngham tri, caiff pob un o'r pum adran o'r arolygiad eu hasesu'n unigol yn erbyn y meini prawf perthnasol. Mae asesiadau yn seiliedig ar:

- wybodaeth a roddir gan y Tîm Troseddau Ieuenctid
- cyfweliadau â phrif swyddogion, rheolwyr a staff o'r Tîm Troseddau Ieuenctid a sefydliadau partner eraill
- archwilio ffeiliau achos
- trafodaethau â rheolwyr achos a phobl eraill sy'n chwarae rhan fawr yn y broses oruchwylio
- safbwyntiau'r plant a'r bobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr a, lle y bo'n bosibl, eu dioddefwyr, y cysylltwyd â hwy yn ystod yr arolygiad
- gwybodaeth a roddir gan y JAR, yr Asesiad Corfforaethol a chanfyddiadau arolygu perthnasol eraill yn Lloegr, ac arolygiadau a gynhelir fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella ac o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru.

Rhoddir y dyfarniadau a'u disgrifyddion yn y tabl isod:

Dyfarniad	Disgrifydd
4	Ardderchog – yn perfformio'n dda, yn llawer gwell na'r gofynion sylfaenol gyda nodweddion eithriadol
3	Da – yn perfformio'n dda, yn gyson yn well na'r gofynion sylfaenol heb unrhyw ddiffygion pwysig
2	Digonol – dim ond yn bodloni'r gofynion sylfaenol
1	Annigonol – nid yw'r bodloni'r gofynion sylfaenol, a cheir llawer o ddiffygion pwysig

Rydym yn crynhoi dyfarniadau'r pum adran mewn asesiad cyffredinol. Rydym wedi penderfynu na fyddwn yn rhoi dosbarthiad cyffredinol o'r perfformiad yn ei gyfanrwydd yng ngham tri, am ein bod am i bob Tîm Troseddau Ieuenctid canolbwyntio ar ei feysydd penodol ei hun ar gyfer gwella.

Camau nesaf

- Gofynnir i'r Tîm Troseddau Ieuenctid anfon ymateb i'r argymhellion, at yr arolygydd arweiniol, ynghyd â chynllun gweithredu o fewn tri mis i gyhoeddi'r adroddiad. Rhagwelir yr ymdrinnir â'r argymhellion fel arfer o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad er mwyn rhoi digon o amser i'w hintegreiddio â datblygiadau presennol.
- Ar ôl i'r arolygydd arweiniol gytuno ar y cynllun gweithredu, caiff ei drosglwyddo i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a fydd yn monitro'r broses o roi'r argymhellion ar waith.
- Fel arfer nid yw'r rhaglen arolygu ar y cyd yn cynnwys unrhyw gamau dilynol oni bai bod materion yn dod i'r amlwg yn ystod y rhaglen a oedd yn peri cymaint o bryder fel bod angen rhoi sylw iddynt ar unwaith. Nid yw'r arolygiad o Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd wedi datgelu unrhyw bryderon o'r fath.
- Yn ogystal â'r adroddiadau ar Dimau Troseddau Ieuenctid unigol, mae'r tîm arolygu ar y cyd hefyd yn cyhoeddi adroddiadau cyfnodol ar ganfyddiadau ar draws nifer o dimau. Mae adroddiadau o'r fath yn cynnwys sylwadau am faterion o ran cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth a gwybodaeth arall am dueddiadau. Maent hefyd yn cynnwys cymariaethau rhwng perfformiad Timau Troseddau Ieuenctid gyda nodweddion tebyg.

Meini prawf arolygu ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid yn Lloegr

1. Rheoli

1.1: Arweinyddiaeth

Dyfarniad allweddol

1.1.1: Mae'r Bwrdd Rheoli yn darparu goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol, ac yn cydlynu'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a ddarperir gan y Tîm Troseddau Ieuenctid a sefydliadau partner.

Tystiolaeth

1.1.1.1 Mae llinell atebolrwydd glir ar gyfer y Tîm Troseddau Ieuenctid i Brif Weithredwr yr awdurdod lleol a chaiff cynlluniau'r Tîm Troseddau Ieuenctid eu hintegreiddio â rhai'r cyngor ehangach.

1.1.1.2 Mae'r Bwrdd Rheoli yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau partner sy'n mynychu cyfarfodydd ac yn cymryd rhan frwd ynddynt.

1.1.1.3 Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli yn cynrychioli anghenion y Tîm Troseddau Ieuenctid i'w rhiant-sefydliadau.

1.1.1.4 Mae'r Bwrdd Rheoli yn rhoi cymorth a chanllawiau i Reolwr y Tîm Troseddau Ieuenctid er mwyn sicrhau ei fod yn ystyried blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a materion ehangach o ran amrywiaeth.

1.1.1.5 Mae'r Bwrdd Rheoli yn sicrhau y caiff y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ei roi ar waith.

1.1.1.6 Mae'r Bwrdd Rheoli yn sicrhau y darperir ffurflenni data cywir ac amserol, at ei ddefnydd ei hun ac at ddefnydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

1.1.1.7 Mae partneriaid yn adolygu, monitro a gwerthuso gwybodaeth am wasanaethau yn rheolaidd ac ar y cyd er mwyn sicrhau bod y Tîm Troseddau Ieuenctid yn cyfrannu at wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.

1.2 Partneriaeth ac adnoddau

Dyfarniad allweddol

1.2.1: Mae sefydliadau partner a'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn gweithio gyda'i gilydd i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.

Tystiolaeth

1.2.1.1 Mae'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn adlewyrchu strategaethau partner.

1.2.1.2 Mae adnoddau wedi'u nodi ac mae'r gallu ar gael i ddiwallu'r angen a aseswyd.

1.2.1.3 Caiff Timau Troseddau Ieuenctid eu staffio'n briodol gan bartneriaid yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau'r Swyddfa Gartref/Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

1.2.1.4 Cytunwyd ar brotocolau, contractau a CLG rhwng y Tîm Troseddau Ieuenctid, ei bartneriaid statudol a sefydliadau perthnasol eraill i ymdrin â'r dasg o gydlynu gwaith, darparu gwasanaethau, rhannu gwybodaeth, adnoddau dynol a threfniadau ariannu. Cânt eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

1.2.1.5 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn aelod o'r ACPC/Bwrdd Lleol Diogelu Plant, ac yn gweithredu yn unol â gweithdrefnau amddiffyn plant lleol.

1.2.1.6 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn cyfrannu at ymagwedd gydasiantaethol tuag at reoli troseddwyr risg uchel yn y gymuned, gan gynnwys MAPPA a chofrestru gyda'r heddlu.

1.2.1.7 Mae trefniadau diogel ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc sydd mewn perygl, gan gynnwys y rhai sy'n symud ar draws ffiniau gwasanaethau.

1.2.1.8 Darperir amrywiaeth o ymyriadau a gwasanaethau, gan gynnwys iechyd ac addysg, ar draws yr awdurdod er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu a'r rhai sydd mewn perygl o droseddu.

1.2.1.9 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn cyfrannu at fentrau adfywio cymunedol sydd wedi'u targedu at yr ardaloedd mwyaf anghenus ac yn ymdrin â'r amrywiaeth eang o anghenion teuluoedd mewn ffordd integredig.

1.2.1.10 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn cyfrannu at ganlyniadau llwyddiannus wrth leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn arbennig drwy waith partneriaeth effeithiol.

1.3 Goruchwylio, datblygu a hyfforddi staff

Dyfarniad allweddol

1.3.1: Caiff canlyniadau effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc eu gwella gan staff effeithiol.

Tystiolaeth

1.3.1.1 Caiff arfer ei ddiffinio gan bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig.

1.3.1.2 Caiff staff eu goruchwylio'n rheolaidd o fewn fframwaith rheoli perfformiad, yn unol â'u hanghenion datblygu a'u lefel cymhwysedd wedi'i hasesu.

1.3.1.3 Mae arfarniadau blynyddol yn cynnwys amcanion sy'n gysylltiedig â thargedau lleol a chenedlaethol.

1.3.1.4 Mae pob aelod o staff yn meddu ar gymwysterau priodol a chânt gyfleoedd hyfforddi i'w galluogi i fodloni gofynion y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn nodi a rheoli risgiau a chodi pryderon o ran diogelu.

1.3.1.5 Caiff anghenion hyfforddi eu hadolygu'n rheolaidd.

1.3.1.6 Mae gwirfoddolwyr wedi cael yr hyfforddiant priodol ac ar gael ar gyfer gweithgareddau'r Tîm Troseddau Ieuenctid.

1.3.1.7 Mae gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol wedi'u cynnal ar bob aelod o staff a phob gwirfoddolwr sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc neu eu ffeiliau achos, a chânt eu diweddaru o leiaf bob tair blynedd.

1.3.1.8 Mae cytundebau ar y cyd ar waith ar gyfer rheoli gweithdrefnau disgyblu, gallu a chwyno.

1.3.1.9 Mae gweithdrefn gwyno ysgrifenedig, y rhoddir llawer o gyhoeddusrwydd iddi ac sy'n hawdd ei deall. Caiff cwynion eu rheoli'n briodol yn erbyn y weithdrefn.

1.3.1.10 Cynhelir asesiadau iechyd a diogelwch o gyfleusterau a gweithgareddau, gweithredir arnynt ac fe'u diweddarir yn rheolaidd.

2. Gwaith yn y llysoedd

Dyfarniad allweddol

2.1: Ceir cydberthnasau gwaith da rhwng y Tîm Troseddau Ieuenctid a'r llys lleol.

Tystiolaeth

2.1.1 Mae cytundeb ar waith rhwng y Tîm Troseddau Ieuenctid, clerc yr ustusiaid neu ei uwch gyfreithiwr enwebedig a Llys y Goron lleol yn cwmpasu trefniadau ar gyfer gwasanaethau llys.

2.1.2 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn darparu staff hyfforddedig a hyddysg er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ddigonol mewn unrhyw lysoedd yn ei ardal ddaearyddol, gan gynnwys ar ddydd Sadwrn/gwyliau banc a Llysoedd y Goron.

2.1.3 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn mynychu Grŵp Defnyddwyr Llysoedd Ieuenctid, sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac y nodir ei ddiben yn y safon genedlaethol, ac yn cyfrannu at y grŵp hwnnw.

2.1.4 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn rhoi mewnbwn rheolaidd i staff llysoedd ynadon a Llysoedd y Goron ynghylch amrywiaeth o raglenni ac opsiynau dedfrydu.

Dyfarniad allweddol

2.2: Caiff arfer effeithiol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y Tîm Troseddau Ieuenctid yn y llysoedd.

Tystiolaeth

2.2.1 Rhoddir gwybodaeth ac apwyntiadau cyntaf i bob plentyn a pherson ifanc sy'n dod yn destun dedfrydau cymunedol neu raglenni goruchwylio a chymorth mechnïaeth.

2.2.2 Cyfwelir â phob plentyn a pherson ifanc a gaiff ei remandio neu ei ddedfrydu i gael ei gadw mewn sefydliad diogel neu yn y ddalfa, cânt eu hasesu o ran pa mor agored i niwed ydynt, a chaiff y wybodaeth ei throsglwyddo i'r sefydliad o fewn amserlen y safon genedlaethol.

Dyfarniad allweddol

2.3: Caiff plant a phobl ifanc eu diogelu a chaiff y tebygolrwydd y byddant yn troseddu eto ei leihau drwy ddarparu gwasanaethau priodol, gan gynnwys rhaglenni goruchwylio a chymorth mechnïaeth.

Tystiolaeth

2.3.1 Mae trefniadau ar waith rhwng y Tîm Troseddau Ieuenctid a'r Adran Gwasanaethau Plant leol briodol ynghylch Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (1984), remandau o lysoedd ar ddydd Sadwrn/gwyliau banc a chwblhau'r gwaith papur priodol ar gyfer plant a phobl ifanc a gaiff eu remandio i ofal yr awdurdod lleol.

2.3.2 Mae trefniadau ar waith, y mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid wedi cytuno arnynt, i nodi pob plentyn a pherson ifanc sydd mewn perygl o gael ei roi ar remand diogel neu ar remand yn y ddalfa ac i rybuddio'r Tîm Troseddau Ieuenctid ohonynt.

2.3.3 Caiff gwasanaethau cymorth/goruchwylio wedi'u gwahaniaethu eu cynnig, sy'n gymesur â'r tebygolrwydd o remand, er mwyn ymdrin â gwrthwynebiadau i fechnïaeth.

2.3.4 Darperir gwasanaethau dilynol i blant a phobl ifanc ar remand mewn sefydliad diogel er mwyn sicrhau, lle y bo'n briodol, y caiff ceisiadau eraill am fechnïaeth eu gwneud ar y cyd â phecynnau cymorth cymesur.

Dyfarniad allweddol

2.4: Caiff y llysoedd eu helpu i wneud penderfyniadau hyddysg am fod y Tîm Troseddau Ieuenctid yn darparu adroddiadau o safon.

Tystiolaeth

2.4.1 Caiff adroddiadau cyn dedfrydu o safon eu cynhyrchu yn unol â'r safonau cenedlaethol perthnasol, yn brydlon ac yn unol â'r fformat y cytunwyd arno.

2.4.2 Mae adroddiadau cyn dedfrydu yn ddiduedd ac yn rhydd o iaith wahaniaethol ac ystrydebau.

2.4.3 Mae cynigion yn briodol ac yn gymesur.

2.4.4 Caiff copi o'r adroddiad cyn dedfrydu ei roi i'r plentyn neu'r person ifanc a'i rieni/gofalwyr, lle y bo'n briodol, ac yn brydlon.

2.4.5 Mae adroddiadau dedfryd benodol ac adroddiadau terfynu tystiolaeth ar gael ac yn helpu'r llys i wneud penderfyniadau amserol.

3. Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

3.1: Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu

Dyfarniad allweddol

3.1.1: Caiff plant a phobl ifanc eu hatal rhag troseddu.

Tystiolaeth

3.1.1.1 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau yn yr awdurdod lleol er mwyn gwyro plant a phobl ifanc oddi wrth droseddu.

3.1.1.2 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid a'i bartneriaid wedi cytuno ar broses i nodi ac asesu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu.

3.1.1.3 Mae asesiadau yn sensitif i wahaniaeth diwylliannol ac amrywiaeth, ac yn gysylltiedig ag anghenion sy'n arwain at droseddu.

3.1.1.4 Mae ymyriadau yn gynhwysol ac yn ymdrin ag anghenion penodol merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rhai ag anableddau.

3.1.1.5 Rhoddir sylw i ddiogelu plant a phobl ifanc.

3.1.1.6 Mae ymyriadau yn effeithiol wrth leihau troseddu a hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol.

3.1.1.7 Mae gostyngiad yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf.

3.2: Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu

Dyfarniad allweddol

3.2.1: Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu hatal rhag aildroseddu.

Tystiolaeth

3.2.1.1 Caiff ffurflen Asset ei chwblhau'n llawn ar ddechrau pob ymyriad a chaiff ei hadolygu fel y bo'n briodol. Mae'n seiliedig ar gyswllt â gwasanaethau cymdeithasol a'r hunan-asesiad, ac mae'n ystyried gwahaniaeth diwylliannol, amrywiaeth a materion diogelu.

3.2.1.2 Caiff y risg o niwed i eraill ei hasesu'n llawn ym mhob achos y nodir ei bod yn peri risg bosibl, drwy'r ffurflen Asset gychwynnol neu ddull amgen a dderbynnir.

3.2.1.3 Caiff cynlluniau goruchwylio eu hysgrifennu yn unol â safonau cenedlaethol, gyda phroses adfer dioddefwyr, maent yn deillio o Asset ac maent yn cynnwys amcanion CAMPUS.

3.2.1.4 Mae ymyriadau yn ymdrin ag ymddygiad troseddol, maent wedi'u targedu at y meysydd lle yr asesir bod angen a chânt eu gwerthuso yn unol ag egwyddorion arfer effeithiol ac yn gyson â hwy.

3.2.1.5 Mae ymyriadau yn gynhwysol ac yn ymdrin ag anghenion penodol merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rhai ag anableddau.

3.2.1.6 Mae cyswllt â phlant a phobl ifanc yn gyson â'r safonau cenedlaethol a chanllawiau'r Swyddfa Gartref/Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

3.2.1.7 Mae gweithgarwch gorfodi yn dilyn diffyg cydymffurfiaeth o fewn amserlen y safonau cenedlaethol.

3.2.1.8 Cymerir camau i herio a lleihau achosion o gamwahaniaethu ac aflonyddu gan blant a phobl ifanc.

3.2.1.9 Mae archwilio'r ffeil achos yn rhoi tystiolaeth o gynnydd.

3.2.1.10 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn dangos gostyngiad o ran troseddu ym mandiau cosbau cyn y llys, haen gyntaf a chymunedol.

3.2.1.11 Mae adroddiadau dangosol o ganlyniadau gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasol eraill a holwyd, yn dangos gwelliannau o ran ymddygiad, agwedd a chydberthnasau teuluol.

Dyfarniad allweddol

3.2.2: Caiff iechyd plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y Tîm Troseddau Ieuenctid.

Tystiolaeth

3.2.2.1 Caiff staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc eu cynghori a'u cefnogi i nodi problemau corfforol ac iechyd meddwl posibl ac i wneud atgyfeiriadau priodol.

3.2.2.2 Cynhelir asesiadau arbenigol o'r rhai ag anghenion iechyd.

3.2.2.3 Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu hannog i beidio â chamddefnyddio sylweddau.

3.2.2.4 Caiff plant a phobl ifanc â phroblemau iechyd eu helpu i fanteisio ar wasanaethau sy'n ymdrin â'u hanghenion a aseswyd.

3.2.2.5 Mae archwilio'r ffeil achos yn dangos tystiolaeth o ganlyniadau iechyd gwell.

3.2.2.6 Mae adroddiadau dangosol o ganlyniadau gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasaol eraill a holwyd, yn awgrymu gwelliant o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

Dyfarniad allweddol

3.2.3: Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu diogelu drwy waith y Tîm Troseddau Ieuenctid.

Tystiolaeth

3.2.3.1 Caiff y risg o niwed, naill ai i'r person ei hun neu i/gan eraill (agored i niwed), ei hasesu'n llawn ym mhob achos.

3.2.3.2 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn cyfeirio achosion lle y nodwyd pryderon diogelu i'r Gwasanaethau Plant lleol ac yn cyfrannu at gynlluniau diogelu plant fesul achosion unigol.

3.2.3.3 Mae meini prawf trothwy ar gyfer gwneud atgyfeiriadau diogelu ac ymateb iddynt yn glir ac fe'u deellir yn dda gan staff o'r Tîm Troseddau Ieuenctid a Gwasanaethau Plant.

3.2.3.4 Mae ymyriadau yn ystyried diogelu plant a phobl ifanc.

3.2.3.5 Mae tystiolaeth o weithio ar y cyd a rhannu gwybodaeth a chynlluniau gyda'r gweithiwr cymdeithasol dynodedig, yn arbennig yn achosion Plant sy'n Derbyn Gofal.

3.2.3.6 Mae Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi troseddu yn cael cyfarwyddyd a chymorth penodol.

3.2.3.7 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn cyfrannu at yr adolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi troseddu.

3.2.3.8 Mae archwilio'r ffeil achos yn datgelu gostyngiad mewn ffactorau risg.

3.2.3.9 Mae adroddiadau dangosol o ganlyniadau gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasaol eraill a holwyd, yn dangos gostyngiad o ran bod yn agored i niwed.

Dyfarniad allweddol

3.2.4: Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu galluogi a'u hannog i gyflawni eu potensial.

Tystiolaeth

3.2.4.1 Cynhelir asesiadau arbenigol o'r rhai ag anghenion addysgol penodol.

3.2.4.2 Mae ymyriadau yn hyrwyddo cyrhaeddiad ac fe'u targedir i'r meysydd lle y ceir angen addysgol a aseswyd.

3.2.4.3 Rhoddir cymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu a'u rhieni/gofalwyr, er mwyn hyrwyddo ymddygiad da, presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol.

3.2.4.4 Cymerir camau i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol yn barhaol yn mynychu lleoliadau amgen sydd â'r nod o sicrhau eu bod yn ailintegreiddio i mewn i addysg brif ffrwd.

3.2.4.5 Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu helpu i fanteisio ar gyfleoedd addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

3.2.4.6 Mae archwilio'r ffeil achos yn rhoi tystiolaeth o gyflawniad a/neu gyrhaeddiad gwell.

3.2.4.7 Mae adroddiadau dangosol o ganlyniadau gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasaol eraill a holwyd, yn dangos cyflawniad a/neu gyrhaeddiad gwell.

Dyfarniad allweddol

3.2.5: Caiff canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc eu gwella drwy eu cynnwys mewn ymgynghoriadau ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Troseddau Ieuenctid.

Tystiolaeth

3.2.5.1 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn ymgynghoriadau ynghylch y gwasanaethau a gânt.

3.2.5.2 Cymerir camau rhagweithiol i sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn grwpiau lleiafrifol, plant iau a'r rhai â phroblemau cyfathrebu yn gallu lleisio eu barn.

3.2.5.3 Mae ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn gwneud gwahaniaeth mawr i ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

3.2.5.4 Mae staff yn rhoi adborth effeithiol ar gamau gweithredu yn dilyn ymgynghori, neu ar faterion a godir gan blant a phobl ifanc unigol, gan gynnwys rhesymau dros beidio â chymryd camau ar faterion penodol.

3.3: Gwaith gyda rhieni/gofalwyr

Dyfarniad allweddol

3.3.1: Caiff rhieni/gofalwyr eu cefnogi wrth ymdrin â throseddu eu plant.

Tystiolaeth

3.3.1.1 Cynhelir asesiadau o sgiliau rhiant yn amserol ac yn unol â chanllawiau arfer effeithiol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a chânt eu defnyddio i lywio ymyriadau.

3.3.1.2 Sicrheir bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o ofynion yr ymyriadau a'u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn ystod yr ymyriad.

3.3.1.3 Caiff rhieni/gofalwyr eu hatgyfeirio at ymyriadau sy'n diwallu anghenion gwahanol rhieni/gofalwyr o amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol ac sydd ar gael ar sail wirfoddol a statudol.

3.3.1.4 Caiff rhieni/gofalwyr eu cefnogi wrth ymdrin ag ymddygiad eu plant.

3.3.1.5 Mae ymyriadau yn hyrwyddo rhianta effeithiol mewn perthynas â gallu'r rhieni/gofalwyr i ofalu am y plentyn neu'r person ifanc, i'w reoli a'i diogelu.

4. Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant

Dyfarniad allweddol

4.1: Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n cael Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant yn aildroseddu ei leihau drwy ymyriad y Tîm Troseddau Ieuenctid drwy asesiad.

Tystiolaeth

4.1.1 Caiff ffurflen Asset gychwynnol ei chwblhau sy'n ystyried gwahaniaeth diwylliannol, amrywiaeth, iechyd, addysg, materion diogelu a materion teuluol, a chaiff ei hanfon i'r sefydliad diogel ar unwaith.

4.1.2 Caiff ffactorau risg penodol (e.e. risg o niwed, naill ai i'r person ei hun neu i/gan eraill, iechyd neu gamddefnyddio sylweddau) eu hasesu a'u cyfleu i'r sefydliad diogel ar unwaith.

4.1.3 Mae gweithiwr y Tîm Troseddau Ieuenctid yn anfon copïau o bob asesiad perthnasol, gan gynnwys cynlluniau gofal, adroddiadau cyn dedfrydu, collfarnau blaenorol, iechyd a chynlluniau addysgol, i'r sefydliad diogel o fewn 24 awr i'r person ymddangos yn y llys.

4.1.4 Mae gweithiwr y Tîm Troseddau Ieuenctid yn cyfrannu at y cynllun hyfforddi cychwynnol ac yn sicrhau ei fod yn seiliedig ar Asset.

4.1.5 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r sefydliad diogel i sicrhau y caiff anghenion addysg, hyfforddiant ac iechyd y plentyn neu'r person ifanc eu hasesu ac yr ymdrinnir â hwy.

4.1.6 Cymerir camau i nodi anghenion penodol Plant sy'n Derbyn Gofal, neu blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed mewn ffordd arall, merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rhai ag anableddau ac ymdrin â'r anghenion hynny.

4.1.7 Caiff anghenion plentyn neu berson ifanc o ran tai eu hasesu wrth iddo gael ei ryddhau a chymerir camau, lle y bo'n berthnasol, i atal y plentyn neu'r person ifanc rhag colli llety presennol neu i sicrhau trefniadau sefydlog newydd.

Dyfarniad allweddol

4.2: Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n cael Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant yn aildroseddu ei leihau drwy ymyriad y Tîm Troseddau Ieuenctid drwy gysylltu â'r plentyn neu'r person ifanc a chyswllt effeithiol â'r sefydliad diogel yn ystod y cyfnod carcharol.

Tystiolaeth

4.2.1 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn cyfathrebu'n rheolaidd â phobl allweddol mewn sefydliadau diogel.

4.2.2 Mae gweithiwr y Tîm Troseddau Ieuenctid yn cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd cynllunio ac adolygu dedfryd ac at adolygiadau o'r cynllun hyfforddi.

4.2.3 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn hwyluso cyswllt â'r holl ddarparwyr gwasanaethau sy'n berthnasol i anghenion y plentyn neu'r person ifanc a'r risgiau a gaiff eu peri ganddynt.

4.2.4 Caiff trefniadau i ddiwallu anghenion wedi'u hasesu'r plentyn neu'r person ifanc, yn arbennig mewn perthynas ag iechyd, addysg a llety, eu pennu wrth baratoi iddo gael ei ryddhau.

4.2.5 Darperir i ymdrin ag anghenion penodol Plant sy'n Derbyn Gofal neu blant sy'n agored i niwed fel arall, merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rhai sy'n anabl.

4.2.6 Mae gweithiwr y Tîm Troseddau Ieuenctid yn cyfrannu'n frwd at y cyfarfod adolygu terfynol, yn unol â'r safon genedlaethol.

4.2.7 Caiff rhieni/gofalwyr eu hannog i fynychu cyfarfodydd cynllunio ac adolygu dedfryd, yn arbennig y cyfarfod adolygu terfynol.

Dyfarniad allweddol

4.3: Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n cael Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant yn aildroseddu ei leihau drwy ymyriad y Tîm Troseddau Ieuenctid drwy ailintegreiddio yn y gymuned.

Tystiolaeth

4.3.1 Caiff y cynllun hyfforddi ei adolygu o fewn deg diwrnod gwaith ac wedi hynny bob tri mis neu ar ddiwedd y gorchymyn, pa un bynnag sy'n dod gyntaf.

4.3.2 Mae gweithiwr y Tîm Troseddau Ieuenctid yn asesu ac yn monitro anghenion y plentyn neu'r person ifanc o ran tai.

4.3.3 Mae gweithiwr y Tîm Troseddau Ieuenctid yn monitro'r gwasanaethau iechyd ac addysg a ddarperir, a chaiff y Bwrdd Rheoli ei hysbysu pan na ddarperir y gwasanaethau hyn, yn unol â'r safon genedlaethol.

4.3.4 Mae cynllun dysgu unigol y plentyn neu'r person ifanc yn parhau ar ôl iddo gael ei ryddhau a chaiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd a'i rannu gyda darparwyr a sefydliadau perthnasol, yn arbennig Connexions.

4.3.5 Mae ymyriadau a gychwynnwyd yn y ddalfa i ymdrin ag ymddygiad troseddol, iechyd, diogelu ac addysg yn parhau wrth i'r plentyn neu'r person ifanc gael ei ryddhau, lle y bo'n briodol.

4.3.6 Mae ymyriadau yn gynhwysol ac yn ymdrin ag anghenion penodol merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rhai ag anableddau.

4.3.7 Mae cyswllt y Tîm Troseddau Ieuenctid â phlant a phobl ifanc a gaiff eu rhyddhau o'r ddalfa yn gyson â'r safon genedlaethol a chanllawiau'r Swyddfa Gartref/Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

4.3.8 Mae gweithgarwch gorfodi yn dilyn diffyg cydymffurfiaeth o fewn amserlen y safonau cenedlaethol.

Dyfarniad allweddol

4.4: Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn ei waith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant.

Tystiolaeth

4.4.1 Mae archwilio'r ffeil achos yn rhoi tystiolaeth o gynnydd, wedi'i amlygu, er enghraifft, drwy agwedd tuag at droseddu, cydberthnasau teuluol gwell, canlyniadau iechyd, cyrhaeddiad addysgol a bod yn llai agored i niwed.

4.4.2 Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn dangos gostyngiad o ran aildroseddu yn y bandiau cosbau yn y ddalfa.

4.4.3 Mae adroddiadau dangosol o ganlyniadau gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasaol eraill a holwyd, yn dangos gwelliannau o ran ymddygiad ac agwedd.

5. Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

Dyfarniad allweddol

5.1: Mae dioddefwyr plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu o'r farn eu bod wedi cael eu helpu drwy ymyriad y Tîm Troseddau Ieuenctid i ddod â'r achos i ben.

Tystiolaeth

5.1.1 Cynhelir asesiadau o anghenion dioddefwyr yn amserol ac yn unol â chanllawiau arfer effeithiol.

5.1.2 Rhoddir y cyfle i bob dioddefwr wneud penderfyniadau hyddysg ynghylch eu rhan mewn prosesau adferol uniongyrchol/anuniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu a chânt eu cefnogi wrth wneud hynny.

5.1.3 Cyfathrebir â phobl mewn ffordd sensitif, sy'n ymateb i anghenion unigol, amgylchiadau, dewis ac amrywiaeth.

5.1.4 Cynigir y cyfle i ddioddefwyr ddylanwadu ar unrhyw elfen gwneud iawn o gynllun goruchwylio'r plentyn neu'r person ifanc a chael ei hysbysu o'i gynnydd.

5.1.5 Gall dioddefwyr fanteisio ar ymyriad adferol sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion.

5.1.6 Darperir ymyriadau adferol a gwneud iawn sy'n briodol i oedran, diwylliant, ethnigrwydd, anghenion iaith, lefelau llythrennedd a rhyw'r dioddefwyr a'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi troseddu a pha mor agored i niwed y maent.

5.1.7 Cynigir y cyfle i bob dioddefwr roi adborth a ddefnyddir i lywio gwaith y Tîm Troseddau Ieuenctid.

5.1.8 Mae plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn ymyriadau adferol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r dioddefwr a'r gymuned.